# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 446 | Tachwedd - Rhagfyr 2023 | Pris £1


## DATHLU 50FED PENBLWYDD CYLCH MEITHRIN FFYNNONWEN

Cafwyd noson i gofio ar Nos Sadwrn 21ain Hydref gyda Neuadd y Farchnad Llanboidy yn gysurus lawn. Cyngerdd dathlu oedd hwn. Llywyddwyd gan Edryd ac Aled Eynon. Brasluniodd Edryd hanes y Cylch Meithrin o'r dechrau nôl yn 1973 a diolchodd i bawb sydd wedi ei gwneud hi yn llwyddiant dros y blynyddoedd. Llongyfarchiwyd Liz a'r tîm am safon y dysgu presennol.

Cafwyd eitemau gan Begw Fussel – chwarae'r delyn a canu, y chwiorydd Llewelyn Sioned a Mari yn canu yn unigol ac mewn deuawdau. Pob un o rhain ynghŷd ac Edryd ac Aled Eynon yn gyn ddisgyblion o'r Meithrin. Tynnwyd raffl hanner amser a chynhaliwyd ocsiwn dawel. Bu'r Welsh Whisperer yn cyflwyno nifer o ganeuon yn ei ffordd arbennig yntau. Mae Liz a'r tîm yn ddiolchgar iawn i bawb a gefnogodd drwy eu presennoldeb, y noddwyr a'r rhai wnaeth gyfrannu gwobrau raffl. Dathliad haeddiannol.



Yn y llun: Claire Baker, Amanda, Sioned a Mari Llewelyn, Begw Fussell, Liz, Welsh Whisperer, Edryd Eynon ac Aled Eynon.

## YSGOL BRO BRYNACH AR Y BRIG



Llongyfarchiadau i Ysgol Bro Brynach am ennill cystadleuaeth 'Byd o Heddwch' gan Coco & Cwtsh. Gofynion y gystadleuaeth oedd creu fideo yn esbonio mewn llai na 15 eiliad beth oedd y gân 'Byd o Heddwch' (sef anthem answyddogol i gefnogi Cymru yng Nghwpan y byd) yn ei olygu iddynt a beth oeddent yn hoffi am yr alaw a'r gân. Yn perfformio'r gân oedd Trystan Llŷr a Shân Cothi a welir yn y llun gyda'r plant.

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DDARLLENWYR Y CARDI BACH**

**Dalier Sylw**

Oherwydd cynnydd yng nghostau argraffu a lluniau lliw, mae'n rhaid codi pris Y Cardi Bach i **£1.50** o fis Ionawr ymlaen. Dyma'r cynnydd cyntaf ers 12 mlynedd. Gobeithio gwnewch barhau i gefnogi eich papur bro.

## Y CARDI BACH

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **i'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marion Thomas 01994 230121 |
| **Cornel Garddio:** | |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Dyma ni felly – y cyfnod cyn y Nadolig pan ry'n ni'n aml yn clywed pobl yn rhyfeddu bod y flwyddyn wedi hedfan mor gloi. Felly wrth ddymuno Nadolig Llawen i chi ddarllenwyr selog y Cardi Bach ro'n i'n meddwl y byddai'n syniad i ni fwrw golwg yn ôl ar y flwyddyn aeth heibio, a chymharu misoedd Rhagfyr 2022 a 2023.

Does dim llawer o bethau sydd wedi newid er gwell yn ariannol ma' arnai ofn. Yn Rhagfyr 2002, roedd pris stamp dosbarth cyntaf yn 95c. A 68c oedd stamp ail ddosbarth.
Bellach mae stamp dosbarth cyntaf yn £1.25 ac ail ddosbarth yn 75 c.

Felly i'r rhai di-drefn yn ein plith sy'n ei gadael hi tan y funud olaf, bydd cost anfon 50 o gardiau Nadolig gyda stamp dosbarth cyntaf yn £62.50 eleni o gymharu â £47.50 y llynedd.

A beth am y pethau sydd wedi diflannu yn y flwyddyn a fu ?
I'r rhai ohonoch sy'n hoff o'r baryn siocled Caramac – mae newyddion gwael arall. Mae'n diflannu oddi ar y silffoedd wedi 60 o flynyddoedd. Yn ol Nestlé, gostyngiad mewn gwerthiant sydd i gyfri am hynny.

Mae'r rhai sy'n caru Caramac wedi bod yn eu dagrau ar y cyfryngau cymdeithsol. A dyna chi rywbeth arall sydd wedi newid ers Rhagfyr 2022. Mae'r deryn bach yn trydar wedi diflannu a Twitter wedi cael enw newydd gan Elon Musk – sef X. Rhaid ei fod e a'i dîm wedi pendroni am fisoedd cyn dewis enw mor greadigol ac unigryw !

Wrth ystyried materion lleol, mae bellach yn cymryd 21 eiliad ychwanegol i yrru trwy bentref Pwll-Trap o gymharu â Rhagfyr 2022. Jôc yw hynny gyda llaw, dydw i ddim wedi amseru'r teithiau ar 20 a 30 milltir yr awr. Ond yn sicr, mae'r cyfyngiadau 20 milltir yr awr newydd, wedi hollti barn ledled Cymru.

Fis Rhagfyr 2022, roedd Donald Trump mewn dŵr poeth. Mae e bellach mewn dŵr poethach, ond dyw hynny'n amharu dim ar ei ymdrechion i geisio cyrraedd y Tŷ Gwyn unwaith yn rhagor.

Ac mae yna rai pethau sydd heb newid dros gyfnod o flwyddyn. Mae Larry'r gath yn dal i fod yn Rhif 10 Downing Street – yng nghanol mynd a dod rhyfedda o'i amgylch.

Cawn weld be ddaw yn 2024, gydag Etholiad Cyffredinol mae'n bur debyg rywbryd yn ystod y flwyddyn i ddod.

Yn y cyfamser, mwynhewch y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac mae'n well gorffen yr erthygl ar nodyn cadarnhaol yn ysbryd yr ŵyl. Cofiwch fod yna un peth arall fydd union yr un fath y 'Dolig hwn a'r un diwethaf – mi fydd yr hen Siôn Corn yn edrych gystal ag erioed, heb heneiddio o gwbwl. Gan obeithio y daw e â llond sach o hapusrwydd i'ch haelwydydd. Nadolig Llawen !


Pwyllgor Adloniant Llanwinio

**OEDFA GAROLAU**

yn Eglwys Llanwinio

**Nos Sul, Rhagfyr 17eg**
**am 7 o'r gloch**

Arweinydd: Phillip Higginson

Organyddes: Jiwli Higginson

*Casgliad tuag at gael Diffibriliwr i'r gymuned*

Lluniaeth ysgafn i ddilyn yn y Neuadd

*Croeso i bawb*



## GOHEBWYR LLEOL

| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones<br>01267 211300<br>eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Lynys Davies<br>01437 563319<br>mam_dadbox@yahoo.co.uk |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.com |
| (Newyddion Tabernacl) | Y Parch. Guto Llywelyn<br>01269 851655<br>gutollywelyn@hotmail.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine<br>01994 448241<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Jill Lewis<br>01994 419495<br>jill.lluest@gmail.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@gmail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies<br>01994 419649<br>eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@btconnect.com |

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan y Parch. Rhodri Glyn Thomas*

**O dawel ddinas Bethlehem...**

Yng nghyfnod yr Adfent rydym ni, sy'n Gristnogion, yn paratoi i ddathlu'r Nadolig ac i ganolbwyntio ar y weithred o gariad gan Dduw yn anfon ei Fab i'r byd. Ein dull arferol o wneud hyn yw dod at ein gilydd yn deuluoedd a chyfeillion i wledda a chyfnewid anrhegion. Ond eleni bydd cyd-destun ein dathliadau yn wahanol. Yn rhyfedd ddigon mae un peth o leiaf yn gyffredin rhwng ein bywydau ni a chyfnod geni Iesu - amgylchynir ni â thyndra gwleidyddol a bygythiad o ryfel. Yn eironig mae'r enghraifft diweddaraf o hyn yn yr union diriogaeth lle cafodd y Crist ei eni. Yn dilyn ymosodiad annisgwyl ac ysgeler terfysgwyr Hamas, mae llywodraeth Israel wedi ymateb trwy fomio Gaza yn ddidrugaredd.

Er mwyn deall maes y gad, mae tiriogaeth stribyn Gaza tua'r un maint â Sir Gaerfyrddin a thra fo poblogaeth ein Sir ni ychydig llai na 200,000 mae Gaza yn gartref i 2 filiwn o bobl yn byw yng nghanol sbwriel adfeilion adeiladau wedi eu dinistrio gan ddegawdau o ryfela. Mae daearyddiaeth y rhan yma o'r Dwyrain Canol yn cynnwys Gaza, Israel yn y canol a'r lan orllewinol. Dylid nodi taw ar y lan orllewinol y lleolir Bethlehem. Ond mae tensiynau yn bodoli yn y fan honno hefyd. Hezbolla, sy'n fudiad terfysgol dipyn mwy pwerus na Hamas ac yn y cefndir y gwledydd Arabaidd sy'n ofnus o fwriadau Israel ac Iran yn wyliadwrus o'i buddiannau. Wrth i Israel warchod ei bodolaeth digon rhwydd fyddai i'r gwrthdaro ymestyn yn ehangach. A rhag bod unrhywun yn credu taw rhyfel sydd wedi ei gyfyngu i frwydr rhwng y Moslemiaid a'r Iddewon yw hwn, mae Cristnogion wedi eu hanafu a'u lladd yn Israel a Gaza. Dinistriwyd un o'r Eglwysi Cristnogol hynaf yn y byd yn Gaza gan fom o Israel.

I fyd digon tebyg y cafodd y Crist ei eni. Yr Ymerodraeth Rufeinig a wynebai fygythiadau o wrthryfel ar ei ffiniau a Herod y terfysgwr oedd yn barod i lofruddio unrhywun a ystyriai yn fygythiad i'w frenhiniaeth. Daeth Iesu i ddatguddio grym cariad a hwnnw'n gariad hunan aberthol i fyd yn llawn bygythiadau a hynny o'i enedigaeth wrth i'w rieni ffoi i'w warchod o grafangau Herod. Y bywyd hwnnw a gyfeiriwyd o'r cychwyn at y weithred eithaf o gariad anhunanol ac achubol ar y groesbren.

Yng nghanol cyflafan y Dwyrain Canol mae Cristnogion o Israel a Gaza yn ceisio lledaenu goddefgarwch, cariad a chymod. A beth amdanom ni? Mae digon o enghreifftiau o wrthdaro, anghyfartaledd a chasineb yn ein cymunedau gan gynnwys casineb at Iddewon, Moslemiaid a lleiafrifoedd eraill ynghyd ag anghyfiawnder a thlodi sy'n erfyn am weithredoedd o gariad.

A beth am weddi? Pan ddaeth Desmond Tutu i Gymru daeth gyda neges o ddiolch am ein gweddïau o gariad a fu'n eu gynnal trwy flynyddoedd anodd Apartheid. Cariad grymus a gweithredol yw'r allwedd i wyrth Bethlehem dref nid tawelwch. Sut mae lledaenu'r cariad hwnnw? O edrych o'n cwmpas gallwn weld digon o enghreifftiau o achosion sy'n haeddu ein sylw a'n gweithredoedd o gariad.

Bydded i ddisgleirdeb y Cariad hwnnw feddiannu ein haelwydydd y Nadolig hwn. Shalom.

# Clonc a Phosau John Arfon

Dyma fwy o hanes fy niwrnod cyntaf yn yr Ysgol Ramadeg. Wedi'r rhan fwyaf o'r staff yn eu gynnau duon a'r plant heblaw y rhai newydd adael y neuadd, euthum ynghyd â thua 30 ohonynt sef Dosbarth 2B i ystafell yr athrawes Goginio lle yr oeddwn fod i'w cofrestru. Am fod y dall yn arwain y dall, roeddwn yn falch iawn fod Ray Evans yr ysgrifenyddes wedi rhoi rhestr imi yn y Llyfr Cofrestru o beth ddylwn wneud. Felly, dyma fynd ati i gofnodi eu henwau, eu dyddiad geni a'u cyfeiriad, hefyd, enw eu rhieni er mwyn medru cysylltu â hwy os byddai angen a'u rhif ffôn. Yna casglu arian cinio ganddynt a rhoi llyfr ysgrifennu newydd i bob plentyn er mwyn iddynt nodi amserlen y gwersi a'r lleoliad am y flwyddyn. Deallais fod y mwyafrif ohonynt yn siarad Cymraeg, ond nid oeddynt yn deall acen y Gogledd, a minnau yn cael trafferth gyda iaith y De!!

Yna aeth y gloch i gael egwyl canol bore a siawns am smôc, sgwrs a dished o de. Yna ymlaen i Ystafell 4 i gwrdd â Dosbarth 4B i roi fy ngwers gyntaf iddynt. Wedi cerdded i mewn i'r ystafell gwelais fod cleddyf yn hongian uwchben y drws gyda dim ond weiren denau oedd yn ei ddal. Caeais y drws yn ofalus a thawel iawn a chefais glap gan y dosbarth. Tybed beth fyddai wedi digwydd pe bawn wedi cau'r drws yn glep. Wedi distewi'r plant, y pwnc a ddewisais, yn anffodus efallai, oedd gweithio allan y Square Root o wahanol rifau, a dyna fu fy ffugenw gydol yr amser y bues yn yr Ysgol. Y wers nesaf oedd mynd allan i un o gytiau "terrapins" i ddysgu Geometreg i 3A. Roedd y dosbarth hwn yn llawer mwy parod i ddysgu na'r un blaenorol ac 'roedd yn cynnwys nifer fawr o blant galluog, a gallaf ddweud fod nifer dda ohonynt hyd heddiw wedi cadw cysylltiad ac yn dal i fod yn ffrindau da gyda mi.

Daeth amser cinio a mynd i'r ffreutur "pre-fab " tu fas, lle 'roedd Mrs Smith y prif gogyddes yn rheoli a doedd wiw i neb gwyno am y bwyd o gwbl na gwneud unrhyw nonsens yno. Dywedodd y Dirprwy Brifathro beth oedd ar y fwydlen a dweud gras cyn bwyd, cyn i bawb ymroi i fwyta.

Ar fy ffordd yn ôl o'r ffreutur cefais air gyda Evans, gofalwr yr Ysgol ac ar ôl gwrando arno'n cwyno am y plant a phopeth arall, dywedodd wrthyf fod planiau ar y gweill i adeiladu estyniad i'r ysgol ymhen rhyw ddwy flynedd. Bloc mawr newydd, tri llawr yn cynnwys dros ugain o ystafelloedd, a byddai hwn yn cysylltu yr Hen Ysgol gyda'r Neuadd a'r Labordai Ffiseg a Bioleg.
Nid oedd hawl gan y plant adael cwmpawd yr ysgol yn ystod y dydd er fod rhai ohonynt yn mynd adref am ginio. Ond os byddai llythyr gan riant i'r Prifathro yn gofyn iddo am ganiatau eu plentyn i fyned i'r dref amser cinio er mwyn cael moddion o'r Fferyllfa neu rhywbeth tebyg byddai'n rhoi caniatad.

Yna yn ôl i'r ystafell staff a chael mwy o sgwrs a dod i adnabod fy nghyd athrawon yn well. *(i'w barhau)*

Fel y mae Gŵyl y Nadolig yn nesau, trist iawn yw gweld a chlywed am yr holl helyntion sydd yn mynd ymlaen yn ein byd y dyddiau hyn. Mae dros flwyddyn bellach ers dechreuodd y rhyfel rhwng Rwsia a'r Wcrain, a thros mis wedi mynd heibio ers yr helbul rhwng Israel a Phalestina, heb son am lefydd eraill yn y byd. Oni byddai'n hyfryd pe byddai pawb yn mynnu heddwch dros yr amser hyn, gallwn ond gweddiio am hynny i fod.

---

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda ichwi gyd gan obeithio y cewch iechyd a phopeth y dymunwch yn y flwyddyn sydd i ddod.

---

**Dyma atebion Mis Hydref**
Darganfod Enwau Merched.
1. Branwen, 2. Henrietta, 3. Lleucu, 4. Myfanwy,
5. Ann, 6.Megan, 7. Mari, 8. Delilah, 9. Esther,
10. Beti (Bwt), 11. Gwenllian, 12. Tara Bethan,
13. Olwen, 14. Ffion (Hague), 15. Siwan
16. Martha (Plu Chwithig), 17. Iona, 18. Dwynwen,
19. Eirlys, 20. Haf, 21. Gwenno, 22. 23. 24. A 25.
Pat, Janet, Elsie a Glen.

**Dyma atebion y Cwrosw a'r Chwilair**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | O | X | X | O | X |
| X | X | O | O | X | O |
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | O | X | X | O |
| X | O | O | X | O | X |
| O | X | X | O | X | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 6 | 2 | 9 | 3 | 1 | 5 | 4 | 8 |
| 9 | 4 | 3 | 8 | 2 | 5 | 7 | 1 | 6 |
| 1 | 8 | 5 | 7 | 6 | 4 | 2 | 9 | 3 |
| 5 | 2 | 9 | 4 | 1 | 6 | 8 | 3 | 7 |
| 6 | 1 | 8 | 3 | 5 | 7 | 9 | 2 | 4 |
| 3 | 7 | 4 | 2 | 8 | 9 | 6 | 5 | 1 |
| 2 | 3 | 1 | 5 | 7 | 8 | 4 | 6 | 9 |
| 8 | 9 | 6 | 1 | 4 | 2 | 9 | 7 | 5 |
| 4 | 5 | 7 | 6 | 9 | 3 | 1 | 8 | 2 |

**Dyma ddau arall i'ch diddori y mis yma**
Rheolau - CWROSW
1.Llenwch pob bwlch gyda dim (O) meu groes (X) fel nad oes mwy na dau ddim neu dwy groes yn dilyn ei gilydd mewn unrhyw linell neu golofn yn y grid. Nid yw'r ddwy linell croes-onglau yn cyfrif.

2. Mae'n rhaid i bob llinell neu golofn gynnwys tri dim a thair croes.

CHWILAIR - Mae'n rhaid i bob llinell, colofn a'r blychau 3 x 3 gynnwys y rhifau o 1-9.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | O | | | | |
| | O | | | | |
| | | X | | | |
| | | | O | | |
| | | | | X | |
| | | | | | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 5 | | 2 | | | | |
| 8 | | | | | 9 | 4 | | |
| 1 | 4 | 9 | 5 | 8 | | | 6 | |
| | | | | | 6 | | 4 | 5 |
| 3 | | 7 | 1 | | | | | |
| | | | | 7 | | 9 | 1 | |
| 9 | 2 | | | 4 | | | | |
| 5 | | | 3 | 1 | | 8 | | |
| | 1 | | 6 | | 7 | | | 2 |

**Pôs y Nadolig hwn yw Chwilair**

Canfyddwch a chroeswch allan yn y grid y geiriau a ddangosir odditano sydd yn ymwneud ag amser y Nadolig. Os gwnewch hyn yn gywir fe fydd nifer o lythrennau yn weddill heb eu croesi allan. Darllenwch y rhain o'r dechrau i'r diwedd mewn trefn a dylech gael ateb o bwys. Dyma'r ateb sydd ei eisiau.

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | O | N | A | B | A | B | E | S | E | R | P | Ff |
| U | C | B | G | Ng | I | N | R | E | O | U | W | E |
| Ch | M | R | U | W | E | I | A | E | A | S | L | S |
| E | N | I | A | G | Y | L | P | D | N | E | E | O |
| L | O | R | A | C | E | L | A | L | O | I | S | J |
| W | I | N | N | I | E | I | N | N | B | L | N | S |
| Y | Th | P | E | T | N | R | L | O | M | A | I | R |
| Dd | E | H | R | R | Y | M | E | I | S | C | T | G |
| E | O | E | U | A | E | M | G | D | A | W | N | S |
| I | D | Dd | I | P | Y | S | L | R | S | I | I | A |
| R | A | S | O | N | L | E | W | A | T | N | D | N |
| A | U | A | N | C | E | L | Y | N | Rh | E | W | T |
| Th | I | A | L | F | Y | C | S | A | R | G | P | A |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addurniadau | Carw | Eglwys | Iesu | Parti | Sosej |
| Angel | Celyn | Eira | Joseff | Plygain | Stabl |
| Aur | Cnau | Emyn | Mair | Preseb | Tawel Nos |
| Baban | Cracer | Ffws | Myrrh | Pwdin | Thus |
| Brenin | Cyflaith | Geni | Nadolig | Rhew | Tinsel |
| Bugeiliaid | Dawns | Gras | Noel | Santa | Tôn |
| Carol | Doethion | Gwylnos | Oerni | Seren | Uchelwydd |

**Yr ail bôs yw ceisio cwblhau y Chwilrif X**

Mae pum grid yn y Chwilrif ac mae eisiau llenwi pob grid fel bod pob rhes a cholofn a'r blychau 3 x 3 yn cynnwys y rhifau 1- 9. Fe welwch fod y grid canol yn gor-gyffwrdd â'r gridiau o'i amgylch a dylai hynny fod o help ichwi i gwblhau y dasg. Cofiwch peidiwch a cheisio datrys pob grid yn eu tro oherwydd mae eisiau taclo y pôs yn gyfan os am lwyddiant, Cymerwch ofal mawr oherwydd mae hwn yn eithaf caled.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2 | 9 | | | | | | | | | | | | | | 8 | | |
| | | 1 | | | 8 | | | | | | | | 6 | 2 | | | 8 | | | |
| 3 | | 4 | | | | 2 | | | | | | 5 | | | 1 | 4 | | 6 | 3 | |
| | 4 | | 8 | | 3 | | | 1 | | | | 4 | | | 8 | | 7 | | | 5 |
| | | 2 | | 6 | | | 4 | | | | | | 1 | | | 3 | | | | 9 |
| | | 6 | 5 | | 1 | 3 | | | | | | | | 3 | 4 | | 1 | | 8 | |
| | 7 | | | | 2 | 1 | | | | | | | | 9 | 6 | | | 7 | | |
| | 6 | | | 1 | | | 8 | | | 9 | | | 5 | | | 2 | | | | |
| | | 3 | 4 | | | | | 9 | | | 6 | 7 | | | | | 5 | | | |
| | | | | | | | | 4 | 7 | | 8 | | | | | | | | | |
| | | | | | | | 7 | | | 3 | | | 6 | | | | | | | |
| | | | | | | | | | 5 | | 2 | 1 | | | | | | | | |
| | | | 9 | | | | | 1 | 3 | | | 5 | | | | | 2 | 1 | | |
| | | | | 5 | | | 4 | | | 8 | | | 9 | | | 5 | | | 8 | |
| | | 7 | | | 2 | 9 | | | | | | | | 2 | 3 | | | 5 | | |
| | 5 | | 2 | | 9 | 6 | | | | | | | | 5 | 6 | | 3 | 2 | | |
| 7 | | | | 8 | | | 3 | | | | | | 6 | | | 9 | | 5 | | |
| 6 | | | 3 | | 4 | | | 8 | | | | 4 | | | 5 | | 7 | | 9 | |
| | 7 | 4 | | 9 | 6 | | | 5 | | | | | | 4 | | | | 8 | | 1 |
| | | | 7 | | | 4 | 9 | | | | | | | | 4 | | | 6 | | |
| | | 1 | | | | | | | | | | | | | | 2 | 1 | | | |

# Adroddiad o Gyfarfod Blynyddol Y Cardi Bach

Cynhaliwyd y cyfarfod ar brynhawn Sul, Hydref 29ain yng Nghanolfan Hywel Dda.
**Yn bresennol:** Eurfyl Lewis (Cadeirydd), Rosemarie Davies, Wyn a Meirwen Evans, Iola Wyn, Meinir Eynon, Beti-Wyn James, Delyth Roblin.

**Croeso**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eurfyl Lewis, y Cadeirydd.

**Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddiwrth Rhian White, Heather Jenkins, Tegwen James, Jane Evans.

**Cofndoion a materion yn codi**
Mae Marian Thomas wedi cytuno i gymryd cyfrifoldeb am y Cornel Llên.
Mae Beti-Wyn yn dosbarthu rhifynnau dros ben o'r Cardi Bach i Gartrefi Dolyfelin, Garreg Lwyd, Brookfield House a Waungron ac Eurfyl i Gartrefi Glyn Nest a Maes Llewellyn.

**Adroddiad y Cadeirydd**
Argraffwyd 10 rhifyn o'r Cardi Bach eleni, 700 o rifynnau y mis felly 7000 am y flwyddyn. Mae'r hen rifynnau i gyd ar y wefan ac ychwanegir at dudalen Facebook y Cardi Bach yn gyson.
Roedd y gystadleuaeth hamper yn boblogaidd a soniwyd efallai y byddai modd i ddefnyddio Facebook i gael hysbysebion.
Diolchodd Eurfyl i bawb sydd yn cynorthwyo gyda pharatoi y Cardi Bach, yn enwedig y cysodwyr Wyn a Meirwen am eu gwaith trylwyr.
Diolchwyd i bawb sy'n paratoi colofnau, i'r gohebwyr lleol, i'r busnesau am gefnogi drwy hysbysebu a gwerthu'r Cardi Bach. Hefyd, Cynghorau Lleol am eu cyfraniadau. Diolchwyd, hefyd, i'r swyddogion am eu gwaith.
Mae Eurfyl yn trefnu cyfranwyr i'r golofn Llewyrch i'n Llwybr ac wedi trefnu i Sue Davies, Clwb Rygbi Hendygwyn; Gwyndaf Williams, Clwb Rygbi San Cler; Trefor Evans criced a bowlio Hendygwyn; Rhodri Lewis, Clwb Pel-droed Llanboidy, ddanfon erthyglau yn fisol.
Cynigiodd Iola hysbysebu'r Cardi Bach ar dudalen St. Clears and surrounding area ar Facebook ac efallai y gallai ardaloedd eraill wneud yr un peth.

**Adroddiad y Trysorydd**
Dosbarthwyd y fantolen a baratowyd gan Rosemarie. Mewn llaw 1/10/22 roedd £7608.26 ac ar 30/09/23 roedd £4484.25. Roedd dros £3000 o golled mewn blwyddyn.

**Trafod cynyddu pris y papur**
Oherwydd costau cynyddol penderfynwyd codi cost pob rhifyn i £1.50.

**Adroddiad y Cysodwyr**
Mae'r cysodwyr yn ddiolchgar i'r gohebwyr gyda'r newyddion yn cael ei dderbyn ar amser.
Mae'r rhaglen cliniadur ac argraffydd yn wych a cost inc yn rhesymol.
Mae angen atgoffa'r ysgolion taw i fyny at 3 llun sy'n dderbyniol a bod angen danfon penawdau gyda'r lluniau.

**Adroddiad y Clwb 200**
Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig oddiwrth Rhian.
Mae 648 o aelodau, sydd yn llai na llynedd.
Diolchwyd i Wyn a Meirwen am eu help bob mis i dynnu rhifau ar Google Random.
Penderfynwyd codi gwobrau'r Clwb 200 i £30 a £20 bob mis.

**Ethol Swyddogion**
Penderfynwyd y byddai'r swyddogion yn parhau yn eu swyddi fel a ganlyn:
Cadeirydd – Eurfyl Lewis
Is-gadeirydd – Iola Wyn, sydd hefyd yn fodlon cyfieithu unrhyw newyddion a ddaw mewn yn Saesneg.
Ysgrifennydd – Beti-Wyn James
Is-ysgrifennydd – Iola i gamu mewn os bydd angen.
Trysorydd – Rosemarie Davies
Is-drysorydd – Rhian White

**Trefniadau tynnu gwobrau'r Clwb 200**
Trafodwyd cynnal noson i dynnu gwobrau'r Clwb 200 cyn diwedd y flwyddyn i gyd-redeg â blwyddyn y Clwb 200. Penderfynwyd ar brynhawn Sul, Rhagfyr 3 am 4y.h. yng Nghanolfan Hywel Dda.

**Unrhyw fater arall**
Hamper Nadolig – penderfynwyd gofyn i Llinos baratoi hysbyseb a bydd Iola yn chwilio cynnwys i'r fasged.
Diolchwyd i Iola am wirfoddoli ar stondin Papurau Bro yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbott*

Dyma rywbeth i chi ar gyfer y Nadolig, Gobeithio y byddwch chi'n ei joio. Cadwch yn iach a pheidiwch ag yfed gormod.

Pob lwc, *Albie*

| | |
|---|---|
| Dewisa gerdyn.<br>Gwranda arna i.<br>Gad lonydd i hwnna.<br>Saf ar dy draed.<br>Cod dy galon.<br>Dere gyda fi.<br>Gwna gwpanaid o de i mi.<br>Cymer dy amser. | Dewis cerdyn i beth? |
| Cymer gerdyn.<br>Golcha gwpan i mi.<br>Pryna bapur i mi.<br>Pryna fisgedi i mi. | P'un wyt ti am gymryd? |
| P'un wyt ti am i mi gymryd?<br>P'un wyt ti am iddo fe gymryd<br>P'un wyt ti am iddyn nhw gymryd?<br>Pa rai wyt ti am iddyn nhw gymryd? | Unrhyw un fynnu di |
| Ble doda i hi?<br>Beth ddweda i?<br>Pwy ddewisi di?<br>Pryd dof i? | Rhywle lici di. |
| Cofia di p'un oedd hi, wnei di?<br>Cofiwch chi p'un oedd hi, wnewch chi?<br>Cofiff e p'un oedd hi, wnaiff e?<br>Cofian nhw p'un oedd hi, wnân nhw? | Wel, gwnaf. |



ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

GWASANAETH
CEIR HENDYGWYN
Canolfan
atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

# MERCHED Y WAWR

## Cangen Gronw

Croesawodd Val (y llywydd am y mis), bawb i Festri Ramoth ar brynhawn dydd Iau, Hydref 26ain ac estynnodd groeso arbennig i aelod newydd sef Delyth Bebb sydd yn ddysgwraig dda.

Dymunwyd yn dda i Rhiannon ar ôl cael triniaeth ar ei llygad ac i Marion sydd ar fynd mewn i'r ysbyty. Darllenwyd cofnodion mis Medi. Dim materion yn codi.

Dosbarthwyd cofnodion rhanbarth a diolchwyd i Meirwen a Tegewn am gynrychioli'r gangen.

Dosbarthwyd taflen o ddewis bwyd ar gyfer y cinio blynyddol ar brynhawn Gwener 15fed Rhagfyr. Penderfynwyd symud cyfarfod mis Tachwedd i brynhawn Mercher 29ain.
Gofynnwyd i Meinir i gadarnhau y trefniadau ar gyfer cyfarfod Ionawr yn Llety Cynin.

Cyflwynodd Val ein gwraig wadd sef Mrs Janet Knott, Bancycapel, Caerfyrddin, a ddaeth atom i son am ei phrofiad fel nyrs gymunedol. Roedd hi'n bleser gael ei chroesawu, ynghyd â'i ffrind, Nesta Thomas. Cyfeiriodd Janet at ddechreuad nyrsio fel galwedigaeth, yn ôl ym 1863, pan gyflogodd dyn cefnog o'r enw Mr. Rathborne, ddynes i edrych ar ôl ei wraig. Gwelodd fod yna ddiffyg adnoddau ac arian i edrych ar ôl bobl glaf yn y gymuned, ac aeth ati i hyfforddi gwragedd i ofalu am bobl yn eu cartrefi. Prin iawn oedd gwybodaeth sylfaenol pobl am hylendid, meddai Janet, gan ychwanegu taw'r peth cyntaf ddeuai allan o fag y nyrs gymunedol, oedd sebon a brwsh!

Dangosodd amrywiaeth eang o offer nyrsio a ddefnyddiwyd gynt – yn siswrnau, chwistrellau a nodwyddau, a theclynnau mwy amheus eu golwg! Roedd ganddi gasgliad o boteli oedd wedi bod yn llawn hylifau neu bowdwr llesol i gleifion, ac enwau megis Milk of Magnesia, Gripe Water, Scott's Emulsion, Malt Extract, Slippery Elm a Vigor Tonic yn tanio ambell atgof. Mae nyrsio wedi newid llawer iawn ers dyfodiad a sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol. Rydym wedi anghofio am y cyfnod pan oedd pobol yn gorfod talu am eu gofal meddygol a deintyddol. Mae datblygiadau modern wedi gwella triniaethau yn fawr iawn, a diolch am hynny. Diolch hefyd am y bobol, ddoe a heddiw, sy wedi dewis neilltuo eu bywydau i ofalu amdanom pan fyddom yn glaf. Cawsom brynhawn difyr a diddorol iawn. Diolchodd Val iddi.

Enillwyd y raffl gan Mary a Rhiannon a Gwenda oedd yng ngofal y tê.



Janet Knott yng nghwmni Meinir a Valerie

## Cangen Hendygwyn

Braf oedd cael cwrdd a'n gilydd 'to yng Nghanolfan Hywel Dda ar Fedi 19eg ar ôl y gwyliau haf. Croesawodd Margarette, Meleri Brown o 'Hafan Holistaidd' ym Mronwydd. Ceson ni orig hynod ddiddorol yn ei chwmni yn dysgu mwy am Adweitheg. Ar ôl rhoi hylif hyfryd dros ein dwylo dangosodd Meleri i ni sut i weithio ar ein dwylo i wella cyflyrau megis diffyg cwsg, pennau tost ayyb. Ceson ni dipyn o'i hanes hi hefyd ar hyd y prynhawn.
Tra'n mwynhau disied o de a chacennau a baratowyd gan Rhian a Margarette, casglodd Ann Glanville y tâl aelodaeth a dosbarthwyd 'Y Wawr'. Cafodd pob aelod gopi o fwydlen ein cinio Nadolig hefyd. Diolchwyd yn gynnes iawn i Meleri am roi o'i hamser prin i ni.

Yna, ym mis Hydref daeth Catrin Stevens o Abertawe i siarad am 'Y Gist Heddwch' sy' erbyn hyn wedi dychwelyd o'r Smithsonian yn Washington i'r Llyfyrgell Genedlaethol yn Aberystwyth lle cafodd rheina ohonom ni a fynychodd y Penwythnos Preswyl y cyfle i'w weld a hefyd y cyfle i wrando ar ddarlith athrylithgar gan Mererid Hopwood am hanes yr Apêl Heddwch. Roedd darlith a sleidiau Catrin yn wirioneddol ddiddorol ac roedd pawb wrth eu bodd yn

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

gwrando arni. Ann James oedd yn llywyddu'r cyfarfod a diolchodd yn gynnes iawn iddi ar ein rhan gan ddiolch hefyd i Rose Saer ac Ann Lewis am baratoi'r te a'r cacennau. Atgoffodd Ann bawb i ddod a siswrn a dau beth i'w lapio ar gyfer y cyfarfod nesa' pan fyddwn yn croesawu Helen Davies i'n dysgu ni sut i lapio anrhegion yn eco-gyfeillgar.

## Cangen Beca - Dathlu'r Aur

Prynhawn Iau,12fed Hydref, bu aelodau y gangen, yng nghwmni Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Mudiad, yn dathlu penblwydd y gangen yn 50 oed. Gwnaeth pawb fwynhau cinio blasus oedd wedi ei baratoi gan Robert yn y Caffi.  Diolch iddo ynte.



Tegwen Morris yng nghwmni aelodau'r gangen

Ar ôl bwyta, gwnaeth Angharad ddarllen cofnodion y cyfarfod cynta oll. Gwnaeth Tegwen longyfarch y gangen, a dymuno yn dda iddi. Gwnaeth son, a'n hatgofio am lawer o'r gweithgareddau yr oeddwn wedi cymeryd rhan ynddynt ar hyd y blynyddoedd. Diddorol oedd edych yn ôl dros yr amser.

Wedyn, braint Ann Phillips oedd torri cacen y dathlu. Ann yw'r unig aelod presennol oedd yno ar y dechrau.

Cyn troi tuag adre, bu'r aelodau yn edrych ar hen luniau, a hel atgofion. Gwnaeth pawb fwynhau prynhawn diddorol yn llawn atgofion.



Ann Phillips yn torri cacen y dathlu

**Tachwedd 9fed**

Gwnaeth y gangen gyfarfod unwaith yn rhagor brynhawn Iau, Tachwedd 9fed.

Croesawodd Eilir, llywydd y mis,  bawb i'r cyfarfod. Ar ôl canu Can y Mudiad, gwnaeth Angharad ddarllen cofnodion misoedd Medi a Hydref. Ar ôl trafod materion y mudiad a'r gangen, braint oedd estyn croeso i Delyth Davies atom i'r cyfarfod. Croeso hefyd i Bethan Picon-Davies, ei chwaer yng nghyfraith, oedd wedi dod gyda hi yn gwmni.

Bu Delyth yn dangos sut mae yn mynd ati i baratoi pob math o fân brydiau, fel canaps, cacennau caws, eclairs, a llawer mwy mewn ffordd ddiffws a chartrefol. Gwnaeth Eilir ddiolch iddi am brynhawn wrth fodd pawb. Wedyn, mwynhad wrth i bawb gael blasu y danteithion gyda ein paned arferol.

Enillwyd raffl y mis gan Anona, a bu Rhian yn ddigon lwcus i ennill y gacen gaws roedd Delyth wedi ei pharatoi ynghynt. Unwaith yn rhagor pawb yn mynd adre yn hapus ein byd, gan edrych ymlaen at ginio Nadolig y mis nesa.

## Cangen San Cler

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Tachwedd, a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgol, gan y llywydd Annalyn. Llongyfarchwyd Sandra ar enedigaeth ŵyr, Caleb. Cydymdeimlwyd â Nest ar farwolaeth ei chwaer-yng-nghyfraith ym Mhenybont. Dymunwyd yn dda i Jane ar ei menter newydd yn rhedeg Siop Sian yng Nghrymych.

Llongyfarchwyd y tîm a fu'n cystadlu yng Nghwis Hwyl y Mudiad ar Dachwedd 10fed. Daeth Lilwen, Eileen, Iona a Beti-Wyn yn gydradd ail yn Rhanbarth Caerfyrddin. Fe wnaeth Iona adrodd nôl o'r Pwyllgor Rhanbarth lle y penderfynwyd cyfrannu £2000 tuag at elusen Cancr y Fron.

Croesawodd Annalyn y gŵr gwadd, sef Dai Rees o Benfro. Mae Dai yn enedigol o San Cler ac wedi treulio blynyddoedd ei yrfa gyda'r heddlu yn Sir Benfro. Ers rhai blynyddoedd bellach mae'n dychwelyd i'w fam eglwys, sef Bethlehem Newydd, Pwll Trap, ar y Sul ac yn gwasanaethu fel organydd. Wedi ymddeol o'r heddlu bu Dai yn gwirfoddoli wrth gynorthwyo pobl ac anabledd i deithio ar y llongau uchel (tall ships.)  Cafwyd hanesion a lluniau ganddo o'r teithiau yma a rhyfeddwyd at y profiadau a gynigiwyd i'r teithwyr o lywio'r llong i ddringo'r mastiau gan ollwng a thynnu'r hwyliau. Gan ystyried bod nifer yn ddall ac eraill mewn cadair olwyn roedd yn agoriad llygad beth fedrir ei gyflawni i gyfoethogi bywydau y rhain.

Diolchwyd i Dai, ar ran y gangen, gan Beti-Wyn a soniodd am ein hedmygedd o Dai am roi o'i amser a'i allu i helpu gwneud y profiad hyn yn bosib i'r anabl.

Mwynhawyd paned a chacennau blasus a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol. Rhoddwyd y wobr raffl gan Rhian Williams ac fe'i henillwyd gan Doreen.

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin,
San Clêr, Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Dyma 2023 yn dod at ei therfyn a chofiwn yn annwyl am y rheini a gollwyd, boed yn aelodau'r Clwb 200 neu'n ffrindiau i'r Cardi Bach.

Diolch am eich cefnogaeth i'r clwb drwy gydol y flwyddyn ac hyderaf y gnewch ymuno eto'r flwyddyn nesaf, i gefnogi'n papur bro.

Dyma enwau'r sawl sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar:-

Rayann Thomas, Penfedw, Boncath
Michael Thomas, 54 Clover Park, Hwlffordd
Geraint Phillips, Myddfai, Pwll-Trap
Margaret a Dion Williams, Cilowen, Login
Richard a Non Murray, Maesyffynnon, Efailwen
Esme Williams, Rhydcoed Bach, Glandwr
Twm Elias Davies, 4 Swn yr Afon, C N Emlyn
Tudur Lewis, Bro Beca, Efailwen
Rhodri Lewis, Bro Beca, Efailwen
Delyth Roblin, Fferm Glynty, Clunderwen
Angela Marie, Yr Hen Swyddfa Bost, Trelech
Elfed a Nia Lewis, 29 Awel Tywi, Llangynnwr
Greta, Miriam a Noa Wyn, Llangynnwr
Gerwyn a Maureen Eynon, Penralltfach, Login
Megan a Sam Pask, Rhydychen, Hebron
Kevin Morris, Bryntaf, Llanfallteg
Delyth Morris, Bryntaf, Llanfallteg
Brynmor Thomas, Brynderwen, Clunderwen
Angela Thomas, Brynderwen, Clunderwen
Doreen Adams, Llainalaw, Hendygwyn
Aled Adams, Llainalaw, Hendygwyn
Thomas Adams, Llainalaw, Hendygwyn
Megan Adams, Llainalaw, Hendygwyn.

**Dyma enillwyr lwcus fis Hydref:-**

£20 - 110 - Owain Williams, ORW
£10 - 255 - Keith Thomas, Rhos Inn, Efailwen

*Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd ac heddychlon i chi gyd.*

Cadwch yn ddiogel, *Rhian*

# Codi Cerflun Twm Carnabwth

Mae'r ymgyrch codi arian yn mynd yn ei flaen yn hwylus. Rydym wedi cyrraedd £9800 hyd yn hyn ac yn agoshau tuag at y swm cychwynnol o £10,000. Y gobaith yw y gallwn godi llawer mwy na hynny, er mwyn peidio dibynnu'n ormodol ar grantiau byddwn yn ymgeisio amdanynt maes o law.

Dyma restr o'r cymdeithasau diweddaraf sydd wedi cyfrannu yn ystod yr wythnosau diwethaf, diolch o galon iddynt am eu cefnogaeth:-

Cyngor Cymuned Mynachlogddu - £300;
Cylch Cinio Caerfyrddin - £200;
Capel Tyrhos, Capel Seion Crymych, Capel Cwm Meils, Capel Ffynnongroes a Merched y Wawr Ffynnongroes - £50 yr un.

Mae nifer o unigolion wedi cyfrannu hefyd ac rydym yr un mor ddiolchgar iddynt hwy am eu haelioni. Os nad ydych wedi cyfrannu hyd yn hyn, mae dal cyfle a croeso i chi wneud!

Ma modd cyfrannu drwy'r ddolen gofundme ar dudalen facebook Codi Cerflun Twm Carnabwth; gwneud taliad arlein yn uniongyrchol i fewn i gyfrif banc Cymdeithas Cwm Cerwyn ar y manylion canlynol 30-91-65 / 01036767; neu drwy anfon siec ataf i, Eurfyl Lewis, Lluest, Llanglydwen, Hendy Gwyn ar Daf, SA34 0XP. Diolch mlan llaw am eich cefnogaeth, gwerthfawrogir pob cyfraniad yn fawr iawn.



Eifion Griffiths yn cyflwyno siec o £500 i Eurfyl Lewis, trysorydd ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth, er cof am ei dad Tyrel a'i frodyr Gareth a Huw. Diolch o galon iddo am ei haelioni.



Stella Whyte, Cefnypant yn cyflwyno siec am £500 i Eurfyl Lewis, trysorydd ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth. Diolch o galon iddi hithe hefyd am ei haelioni.

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

# Cornel Llên *gan Marian Thomas*

Fe ddechreuais i feddwl am y Nadolig yn gynnar ym mis Hydref a hynny unwaith i mi ddeall bwriad y plant i fod gartre yr un pryd dros yr ŵyl ac mae saith o wyrion gennym – felly bydd angen i mi baratoi tipyn cynt na'r arfer os am oroesi. Fe brynes gyfrol hardd Rhian Cadwaladr i geisio ysbrydoliaeth. Mae ei diwyg yn hynod raenus a'r ryseitiau wedi'u gosod mewn modd hawdd i'w dilyn – am wn i! Ond y rhagymadroddi wrth gyflwyno pob un sydd ddifyrraf wrth iddi rannu atgofion. Rysáit cacen Nadolig fy mam yng nghyfraith a ddefnyddiais ar hyd y blynyddoedd ond rwy'n credu efallai y mentraf ar rysáit Casa Dolig eleni.

Mae mam yng nghyfraith y mab sydd yn Llundain yn dysgu Cymraeg ac ar lefel canolradd er mawr glod iddi. Bwydydd Cymreig fydd yr anrheg iddynt hwy fel arfer – halen Môn, mêl gorau Llangynin -wrth gwrs - ac ati – a llyfr. Y llynedd – Drift gan Caryl Lewis – ac fe'i ddarllenes cyn ei lapio! Mae'n stori garu yn pontio dau ddiwylliant rhwng Cymraes a ffoadur o Syria. Fe berswadiodd glwb darllen Dulwich wedyn i drafod y gyfrol a chael canmoliaeth uchel am ddawn rhyfeddol yr awdures i adrodd stori am allu'r ysbryd dynol i wrthsefyll heriau bywyd. Hyhi enillodd Llyfr y Flwyddyn cyfrwng Saesneg eleni.

Ail gyhoeddiad Saesneg Caryl Lewis yw Seed ac fe'i prynais i deulu Bryste ac addasiad Cymraeg ohoni – Hedyn – i deulu Peniel – llyfrau addas i blant 8-12 oed, yn llawn hiwmor am bŵer gobaith a dychymyg gyda'r bwriad o atgoffa plant bod y byd yn lle rhyfeddol a llawen er gwaetha popeth – y tri llyfr mor amserol.

Tueddwn i ymfalchïo yn llwyddiant Cymry, ac yn enwedig Cymry Cymraeg, y tu hwnt i Gymru, a hynny mewn unrhyw faes, boed yn chwaraeon neu ym myd y celfyddydau. Dyna braf oedd clywed am lwyddiant awdur arall sef Manon Steffan Ross ar ennill gwobr Yoto Carnegie am y fersiwn Saesneg o Lyfr Glas Nebo – felly honno fydd yr anrheg eleni a chaf bip arni siŵr o fod cyn ei hanfon!

Llyfr amserol arall a hanes y dylem fel Cymry ymfalchïo ynddo yw'r gyfrol am ddeiseb heddwch menywod Cymru, sef Yr Apêl, cyfrol ddwyieithog a olygwyd gan Mererid Hopwood a J.Mathers. Trefnwyd deiseb oddeutu 7 milltir o hyd wedi'i llofnodi gan bron i 400,000 o fenywod Cymru i'w hanfon i America rhwng 1923-24 er mwyn codi llais dros fyd heb ryfel. Mae'n stori am weledigaeth a dyfalbarhad rhyfeddol y menywod yn gwrthwynebu rhyfel. Mae'r gist a oedd yn cynnwys y ddeiseb bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth.

Un o themâu'r nofel Drift yw tai gwyliau neu ail gartrefi. Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod yn darllen pentwr o nofelau ditectif Saesneg ac mae nofelau Clare Mackintosh – sy'n byw yn ardal y Bala - yn eithriadol o ddarllenadwy, yn cynnwys cymeriadau sy'n Gymry Cymraeg ac eto yn addysgu darllenwyr am effaith ail gartrefi. Os mai nofelau ditectif sy'n mynd â'ch bryd chi fel minnau gallaf yn sicr gymeradwyo nofel ddiweddaraf John Alwyn Griffiths - Dan y dŵr. Dyma ei ddeuddegfed nofel yn y gyfres mae'n debyg ond y cyntaf i mi ei darllen er cywilydd i mi. Fe'i darllenais mewn dau eisteddiad – ond rhybudd - nid yw'n stori addas i'r gwangalon. Cewch eich synnu beth sy'n mynd mlaen yng nghefn gwlad Cymru fach!

Dymunaf y bydd Siôn Corn yn hael i ni bob un ac yn llenwi fy hosan i a chwithau â chyhoeddiadau Cymraeg difyr.

**Coginio**
Winnie James Phillips

## Log Nadolig

**Cynhwysion:-**

3 wy • 4 owns o siwgwr castor • 4 owns o fflwr plaen
1 llwy fwrdd o ddwr cynnes • Jam neu hufen dwbwl.

**DULL**

Gwres y ffwrn 220°C / 425°F
Iro a leino tun swiss roll.

Curo'r wyau a'r siwgwr nes iddynt dewhau.
Ychwanegwch y fflwr yn araf, gyda llwy fwrdd.
Ychwanegwch y dwr.
Rhowch yn y tun a phobwch am 10 munud.

Tra bydd hwn yn pobi, rhowch dywel gwlyb ar y bwrdd, ac yna papur gwrth saim (greaseproof) a gwasgarwch ychydig o siwgwr drosto.
Pan ddaw allan o'r ffwrn, trowch ar y papur gwrth-saim a thynnu y papur leinio i ffwrdd.
Rholiwch i fyny yn y towel.
Wedi iddi oeri, rhowch hufen neu jam ynddi.
Addurnwch hi.

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

Phil a Siôn Harries
SEIRI COED
Efail Fach
Henllan Amgoed
Ffôn: 01994 240857

# HENLLANFALLTEG

**Penblwydd hapus**

Penblwydd Hapus yn 80 oed ar Ionawr 1af i Brenda Williams (gynt o Blaenlliwe). Cyfarchion oddi wrth y teulu i gyd.

**Cydymdeimlo**

Estynnnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Sherrie Naylor a'r teulu ar farwolaeth ei gŵr Rick ar ôl salwch hir. ….hefyd â theulu Eiros Thomas, gynt o Bryngwelltyn ar ei farwolaeth yn ddiweddar.

# RHYDWILYM

Gwnaethom groesawu y Parch Judith Morris i oedfa Gymun bore Sul,Tachwedd 5fed. Diolch iddi am ei gwasanaeth.

Cyn iddi weini y Cymun gwnaeth ddarllen llythyr yr oedd wedi derbyn wrth y Parch Peter M. Thomas ar ran Capel Bethel, Aberystwyth. Yr oedd yn cyflwyno dau aelod o'r Eglwys, sef Gwenallt a Delyth Llwyd Ifan oedd yn dymuno ymaelodi gyda ni yn Rhydwilym. Un â'i gwreiddiau yn Rhydwilym yw Delyth. Y Parch Peter Thomas wnaeth ei bedyddio yn yr afon a'i derbyn yn aelod o'r eglwys. Yr oedd Delyth yn bresennol yn yr oedfa ac estynnwyd croeso iddi ac i Gwenallt fel aelodau newydd. Yr oedd Gwenallt wedi cael llawdriniaeth ar ei droed yn ddiweddar ac wedi methu â bod gyda ni. Dymunwyd gwellad buan iddo.

Rhagfyr 3ydd: 10.30 - Cymun dan ofal Tudur Dylan.

Yn ddiweddar bu Katrina a John Jenkins yn dathlu eu Priodas Ruddem - llongyfarchiadau i'r ddau ar yr achlysur hapus hwn.

Pob bendith i bawb sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Ar brynhawn Sul, Hydref 8fed gwasanaethwyd mewn oedfa ddiolchgarwch gan Y Parchg. Huw George. Gwnaed casgliad tuag at Ymchwil Cancr Cymru.

Bu cynrychiolaeth o Ramoth yn y Gymanfa Ganu ar Hydref 15fed. Canwyd nifer o emynau wedi eu cyfansoddi gan bobl lleol gan gynnwys un emyn o waith Nansi Evans.

Ar Dachwedd 12fed cafwyd Oedfa Gymun am 9.15 y bore o dan ofal Y Parchg. Huw George.

Rhagfyr
3: Dim oedfa
10: Cymundeb dan ofal Y Parchg. Huw George - 2.00
17: Cwrdd Nadolig dan ofal yr aelodau - 10.30

**Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion**

Cynhaliwyd y cyfarfodydd hanner-blynyddol yng Nghapel Penparc, Aberteifi ar ddydd Mercher, Tachwedd 8fed. Y llywydd am eleni yw Eurfyl Lewis.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Noeleen Davies, Wernfraith, Parc y Rhos ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith, sef Myfanwy Davies.

***Penblwydd Hapus yn 70 oed***




Penblwydd hapus iawn i Ceri Saer, Blaenffynnon, Cwmfelin Mynach a fydd yn 70 oed ar y 27ain o Ragfyr. Dymuniadau gorau iddi ar y penblwydd arbennig yma. Cariad mawr oddi wrth y teulu oll.

# MEIDRIM

**Henoed**

Ein cyfarfod diwethaf oedd ein cwrdd diolchgarwch dan arweiniad Y Parch. Huw George. Bu'n siarad â ni yn ei ffordd unigryw ei hun. Dywedodd am gyfrif ein bendithion ond bod dangos caredigrwydd i eraill yn fwy o wobr yn y pen draw. Diolchwyd iddo gan Meirion Morris a chasglwyd £125 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 5ed. Cawn ddarlleniadau a charolau cyn cael te partí a gofynnir i bawb ddod ag anrheg i sach Santa, a hefyd eitem bwrpasol o fwyd ar gyfer y parti.

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
SPAR Glandy Cross
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h. Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

# PWLL TRAP

Llongyfarchiadau i Marlene Lewis, Hafan Glyd, ar enedigaeth gor-ŵyr, Edward. Mab i Rhodri a Vicky Lloyd.

Llongyfarchiadau, hefyd, i Glyn a Menna Thomas, Penupton, ar enedigaeth wyres, Annabelle, merch i Clare a Callum.

Dymunwn benblwydd hapus i Beryl Nicholas, Deilen Wen, sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 80 oed yn ystod mis Hydref.
....hefyd i Megan Phillips, Croeso, sy'n dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Ragfyr 8fed.

**Bethlehem Newydd**
Mae'r gwaith wedi cychwyn ar addasu'r capel ac edrychwn ymlaen at weld y capel ar ei newydd wedd. Mae oedfaon, felly, yn cael eu cynnal mewn gwahanol safleoedd tra fo'r gwaith yn mynd yn ei flaen.

Ar Hydref 22ain cynhaliwyd oedfa gan yr Ofalaeth yng Nghartref Dolyfelin. Cafwyd oedfa hyfryd yng nghwmni deiliaid y cartref a mwynhawyd sgwrs dros baned yn dilyn yr oedfa. Diolch i bawb a fu'n cymryd rhan.



Ar Hydref 29ain fe wnaethom ymuno â'r oedfa yn y Tabernacl, Hendygwyn. Roedd Eglwys Coreaidd Caerdydd yn cyflwyno'i hoedfa a braf iawn oedd cael eu clywed unwaith yn rhagor. Oedfa i'w chofio eto. Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd lluniaeth yn y festri. Diolch i Eglwys y Tabernacl am y gwahoddiad i ymuno â hwy ac am y croeso.

Ar Dachwedd 5ed cynhaliwyd yr oedfa yn Llety Cynin. Daeth rhyw 30 ynghyd ac wedi mwynhau paned, cafwyd gwasaneth hyfryd gyda'r aelodau yn cymryd at y darlleniadau, gweddiau ac ati. Llywyddwyd gan y gweinidog a chyfeiliwyd gan Dai Rees. Wedi paned a sgwrs arhosodd nifer i fwynhau cinio. Bore a fu'n llwyddiant mawr.





**Tŷ Croeso**
Mae'r casgliadau yn parhau at Coda ni a Plant Dewi. Mae Pethau Olyv ac Annalyn yn derbyn dillad at Coda Ni sydd wedi cyfrannu yn ddiweddar at Water Aid a Medecins Sans Frontieres sy'n gweithio yn Gaza. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu dillad ac i Pethau Olyv am eu derbyn. Hefyd, mae casgliad yn parhau i Plant Dewi.




RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos,
Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa
Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP

# LLANBOIDY

**Sefydliad y Merched**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref ar y 12fed o dan lywyddiaeth Denise Harris, croesawodd gŵr un o'r aelodau sef Kevin Trueman sy'n gyfrifol am y winllan yn Jabajak. Bu'n esbonio'r broses o wneud y gwin, gyda'r aelodau'n cael cyfle i flasu rhai o'r gwinoedd. Diolchodd Denise iddo am y noson. Dangosodd 13 o'r aelodau ddiddordeb mewn mynychu'r cyfarfod grŵp yng Nghaffi Beca ar Hydref 28ain. Enillodd Jan y gystadleuaeth am goginio bisgedi sawrus. Penderfynwyd yn y cyfarfod ar Dachwedd 9fed, i archebu bocsys o fwyd Nadoligaidd o Siop Goffi Hywel Dda ar gyfer y cyfarfod Nadolig cymdeithasol ar Rhagfyr 14eg.

**Chwaeroliaeth y Trinity**



Cafodd Chwaeroliaeth y Trinity brynhawn diddorol ac hanesyddol yng nghwmni Eirlys a Mansel Phillips o Ddawnswyr Talog. Gyda lluniau a fideos byr, buont yn sôn am hanes y dawnswyr a sut bu'r dawnsio ddechrau blynyddoedd yn ôl. Roedd y te a'r bisgedi yng ngofal Anne Lewis a Rose Saer.

## *Penblwydd Hapus yn 80 oed*




Penblwydd Hapus i Bethan Williams sydd wedi bod yn dathlu ei phenblwydd yn 80 yn ddiweddar. Pob dymuniad da wrth pawb yn y Trinity, Llanboidy.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Hubert a Margaret Phillips Waunfawr, ar ddathlu eu priodas Ddeiamwnt, sef 60 mlynedd, ar Hydref 12fed.

**Diolch**

Dymuna Rodney Williams ddiolch i bawb am yr holl gardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ôl llawdriniaeth yn ysbyty Treforys. Gwerthfawroga'r cyfan yn fawr iawn.

**CLWB CYMDEITHASOL LLANBOIDY**

Cynhelir

**Noson Bingo**

Nos Sadwrn, Rhagfyr 16eg

am 8 o'r gloch

Gwobrau amrywiol am linell a tŷ llawn

*Croeso cynnes i bawb*

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i Mr Alun Lenny a'r Parchedig Judith Morris am ddod atom yn ystod y Suliau diwethaf, gwerthfawrogwn eu gwasanaeth yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-

Rhagfyr
3ydd: Mr Tudur Dylan Jones - Cymun am 2
17eg: Oedfa Nadolig yr aelodau am 10.30

Ionawr
7fed: Ken Thomas - Cymun am 2
21ain: Catrin Isaac Thomas - Cwrdd am 10.30

**Y Gymanfa Ganu**

Cynhaliwyd y Gymanfa Ganu yng nghapel Tabernacl Maenclochog ar fore Sul, Hydref 15fed dan arweiniad Angharad Edwards. Y cyfeilyddion oedd Jiwli Higginson, Ceirios Jenner a Jencyn Corp a cafwyd canu bendigedig gan y cantorion.

**Cyrddau Hanner Blynyddol Gymanfa Caerfyrddin a Cheredigion**

Cynhaliwyd cyrddau hanner blynyddol y Gymanfa yng Nghapel Penparc ar ddydd Mercher, Tachwedd 8fed, dan

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735
info.ifanlewis@gmail.com

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

lywyddiaeth Eurfyl Lewis, gweler adroddiad manylach a lluniau o fewn tudalennau y rhifyn hwn.

**Penblwyddi**

Dymunwn benblwydd hapus i Einir Evans, 1 Brynhyfryd, fydd yn 50 oed ar Rhagfyr 21ain. Mwynha bob eiliad o'r achlysur arbennig.



Penblwydd hapus iawn i Mary Llewellyn, Garth, Login yn 92 mlwydd oed. Dymuniadau gorau wrth y teulu a ffrindiau.

## Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Cynhaliwyd noson gwis yn y ganolfan ar nos Wener, 17eg Tachwedd dan ofal Lyn Burnell. Cafwyd tipyn o hwyl a sbri gyda Lyn yn arwain yn ei ffordd unigryw. Noson o gymdeithasu llwyddiannus, byddwn yn siwr o ail greu yn y flwyddyn newydd.



Y criw i gyd gyda Margaret Griffiths, trydydd o'r dde yn y rhes ffrynt â enillodd taleb cigydd wedi iddi ennill y gêm bingo.

**Noson Garolau**

Cynhelir noson garolau y ganolfan ar nos Wener, 22ain Rhagfyr am 7.30 yng Nghapel Cwm Miles. Byddwn yn casglu at Fanc Bwyd Hendygwyn ar Daf. Os nad ydych yn medru bod yn bresennol, gallwch alw yn nhŷ yr ysgrifennydd gyda'ch nwyddau. Gobeithio y cawn cystal casgliad â llynedd. Mae trefniadau wedi eu gwneud i gymdeithasu ar y festri gyda mins peis a gwîn poeth. Cofiwch gefnogi.

**Cinio Blynyddol**

Nos Wener, 2il Chwefror 2024 yng Nghaffi Beca. Ni fyddwn yn derbyn mwy na 60 enw felly y cyntaf i'r felin. Cewch fanylion y fwydlen yn y flwyddyn newydd.

Cyfarfod nesaf: nos Fawrth, 16eg Ionawr am 7.30.

# CWM-MILES

**Capel Cwm Miles**

Diolch i Elonwy Phillips ac i'r Parchedig Gareth Ioan am oedfaon mis Hydref a Tachwedd. Cafwyd bendith yn y ddwy oedfa. Gwerthfawrogwn eich gwasanaeth yn fawr iawn. Edrychwn ymlaen at wasanaeth canu carolau Canolfan Ffynnonwen ar 22ain Rhagfyr am 7-30.

# BLAENWAUN

Dymuniadau gorau i Peter Anthony, Waunfawr, sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.
Deallwn bod Roy Lewis Blaenpant, wedi symud i gartref gofal Maes Llewelyn. Dymunwn yn dda iddo.

**Moriah:**

Pob dymuniad da i Eluned James, Pencraig sydd wedi cael triniaeth ar ei chlîn. Rydym yn meddwl amdanat ac yn gobeithio y byddi nôl yn yr oedfaon yn fuan.

Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan am yr oedfa ym mis Hydref ac i Annalyn Davies am yr oedfa ddiolchgarwch yn Nhachwedd.

Rhagfyr
3ydd: 3.30 Cymun Parchedig Gareth Ioan
17eg: 10.30 Cwrdd Nadolig Parchedig Gareth Ioan.
Ionawr 7fed. 3.30 Cymun Parchedig Gareth Ioan.
Croeso cynnes i bawb.

**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth Cyflogau
Cadw Cyfrifon Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*



Ffôn: 01994 230474

# BANCYFELIN

**Cana a Bancyfelin**

Bu plant Ysgolion Sul Cana a Bancyfelin yn paratoi pwmpeni ddiwedd Hydref gan ddilyn gweddi arbennig, sef 'Gweddi wrth gerfio pwmpen' a baratowyd gan y Parchg Beti Wyn. Wrth weddio'r weddi, roedd ystyr arbennig i bob symbol ar y pwmpeni. Da iawn chi blant a diolch i'r Athrawon Ysgol Sul am bob cymorth.



**Capel Bancyfelin**



**Capel Cana**

## Gibeon

Llongyfarchiadau i Andrew a Suzanne Davies ar eu priodas yng Ngibeon ar Hydref 14eg. Gweinyddwyd yr oedfa gan y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas, cafwyd darlleniad gan Annalyn Davies a Hilary Evans oedd yn cyfeilio. Gwenodd yr haul a dymunwn yn dda i'r pâr priodasol.

Llongyfarchiadau i Rhydian a Laura Davies, Awel y bryn, Llangynin, ar enedigaeth mab bach, Caleb, ar ddechrau mis Hydref. Llongyfarchiadau, hefyd, i dadcu a mamgu sef Alun a Sandra, Erw Ddol.

Cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch ar brynhawn Sul, Hydref 15fed. Bu plant ac ieuenctid yr Ysgol Sul yn cyflwyno hanes y creu drwy ddarlleniadau a chaneuon. Cafwyd anerchiad gan Beti-Wyn ar y thema "yr hyn rydym yn hau rydym yn medi". Cyfeiliwyd gan Hilary a chymerodd Elen, Iona ac Annalyn ran hefyd.



Yn ystod yr oedfa derbyniwyd Anwen a Sioned Evans, Gwarwenallt yn aelodau yn yr Eglwys gan y gweinidog. Braf yw eu cael yn aelodau gyda ni, yn gyn-aelodau ffyddlon o'r Ysgol Sul ac yn cymryd rhan yn yr oedfaon ers hynny, pan y maent wedi bod adre.



Ar fore Sul, Hydref 22ain bu plant ac ieuenctid yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn Oedfa'r Ofalaeth yng Nghartref Dolyfelin. Cafwyd gwasanaeth hyfryd a diolch i'r plant am eu gwaith graenus wrth ddarllen a chanu. Braf oedd cael cyfle i gynnal oedfa yn Nolyfelin unwaith eto a chael cyfle i gymdeithasu gyda'r trigolion yno.

the LONDON HOUSE butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN

**01994 240705 / 240055**

*Galwch mewn am y dewis gorau*

Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol

15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR





Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# LLANGYNOG

## *Penblwydd Hapus yn 90 oed*



Penblwydd hapus iawn i Beryl Thomas yn 90 mlwydd oed ar ddechrau'r mis. Cynhaliwyd parti i ddathlu'r achlysur yn Neuadd y Pentre, gyda pherthnasau o bell ac agos, cymdogion a ffrindiau, ei chyn gydweithwyr yng Nghyngor Caerfyrddin, ei chyd aelodau mewn gwahanol gymdeithasau fel Sefydliad y Merched, Y Ffermwyr Ifainc, Yr Henoed, Pwyllgor y Neuadd, y Cyngor Lleol, Y Gymdeithas Hanes, Merched y Wawr a'r Capel.

Y Sul Canlynol mewn Oedfa Gymun yng Nghapel Ebenezer, cyflwynwyd rhodd arbennig i Beryl i ddathlu'r penblwydd ac i ddiolch iddi am ei ffyddlondeb i'r achos fel aelod, diacones ac ymddiriedolwraig, ond yn bennaf am ei chyfraniad yn chwarae'r organ am bron i bedwar ugain o flynyddoedd, - sef llun o'r capel wedi ei fframio, ac yn gefndir i ddau englyn gan Hywel Griffiths -

I Beryl yn 90, (Hydref 2023)

Ebenezer a Beryl – unedig
yn nodau'r Efengyl;
dilyn emyn i'w ymyl
yn eu sain wnaeth Oedfa'r Sul.

O'ch herwydd, o'r hen chwarel – i 1 Isfryn
ac yn nhir y capel,
cof Llangynog sy'n ddiogel
yn ddwfn i'r oesoedd a ddêl.

# SAN CLER

**Llongyfarchiadau** i bawb o'r ardal a fu'n cystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghaerdydd. Roedd yn braf clywed enw San Cler pan yn gwrando ar y cystadlu a'r canlyniadau.
..hefyd i Aeron a Carys Owens, Manor, ar enedigaeth eu hwyres, Sara, merch i Rhys a Lisa, a chwaer fach i Hanna.

Mae Croeso Cynnes wedi ail-gychwyn dros y Gaeaf ac yn profi'n boblogaidd iawn. Diolch i'r gwirfoddolwyr am eu gwaith yno.




## Pum cenhedlaeth o deulu Dewi Griffiths



Yn y llun o'r chwith: Gethin Davies (Cwm Gwaun) y Tad; Dewi Griffiths (Sancler) hen-hen datcu; Bonni Davies (Cwm Gwaun) hen-famgu; Hedd Davies (Cwm Gwaun) Datcu; babi - Macsen Davies.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS

Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282



# LLANGLYDWEN



Llongyfarchiadau mawr iawn i Ryan Smith ar ei lwyddiant ym Mhencampwriaeth rallycross y 5 gwlad. Gyda thîm y Suzuki Swift mae wedi teithio i gystadlu yn Lydden Hill, Mindello Cicuit Iwerddon, Pembre, Sir Gaerfyrddin a Volkanswaard yn yr Iseldiroedd, ac yna nôl i Lydden Hill ar gyfer y rownd derfynol. Mae'r teulu yn falch iawn ohono yn gorffen yn 3ydd yn y bencampwriaeth. Camp arbennig ag yntau mor ifanc.

Rydym oll yn dy longyfarch a phob dymuniad da i ti i'r dyfodol.




Ryan gyda dadcu a mamgu, Dai a Joyce Phillips

## Calendr Yr Awen 2024

Mae Karen Sawyer, sy'n byw yn Dolwilym, ger Llanglydwen wedi bod yn brysur iawn eleni eto yn tynnu lluniau gwych gyda'i chamra. Mae wedi cynllunio calendr trawiadol a deniadol, sy'n cynnwys amrywiaeth o luniau o olygfeydd, bywyd gwyllt, adar a blodau.

Mae'r calendr wal hwn sef "Calendr yr Awen 2024" yn cynnwys ffotograffau ysbrydoledig a dynnwyd yn lleol yn Ne-orllewin Cymru ac mae'n cynnwys hen ddiarhebion Cymraeg i'ch arwain drwy'r flwyddyn.

Mae ei faint A3 hael yn gadael digon o le i nodi'r dyddiadau pwysig hynny i'w cofio, gan wneud hwn yn anrheg delfrydol, meddylgar a hyfryd ar gyfer y Nadolig. Mae ar gael nawr, am bris o £14, o www.cardiaukaren.cymru (gyda dosbarthiad lleol am ddim!)




Gellir prynu'r calendr hefyd yn siopau J.K.Lewis (Glandy Cross), Bwyd y Byd (Crymych) ac Awen Teifi (Aberteifi). Mae cardiau cyfarch a ffotograffau wedi eu mowntio o olygfeydd lleol, hefyd ar gael gan Cardiau Karen ac ar werth yn y siopau uchod.

Am fwy o fanylion cysylltwch gyda Karen drwy e-bost: karen@cardiaukaren.cymru

Cardiau Karen
cardiaukaren.cymru

Llongyfarchiadau mawr i Karen ar gynhyrchu calendr hyfryd eleni eto, ac hefyd am fwrw ati i ddysgu Cymraeg gyda brwdfrydedd, mae'n ysbrydoliaeth i lawer o bobol, gan gynnwys ni'r Cymry Cymraeg cynhenid.

## *Priodas Aur*



Llongyfarchiadau i Dianne a John Thomas, Rhiwderyn, Casnewydd (gynt o Llanglydwen a Llanboidy) ar ddathlu eu Priodas Aur. Priodwyd y ddau yng nghapel Cefnypant ar Dachwedd 17eg, 1973. Pob dymuniad da.

SPAR
Jerry Williams a'i Feibion
GROSER a SWYDDFA BOST
CLOTH HALL
LLANBOIDY
Ffôn: 01994 448364 / 448221

ORW LTD
TRADING AS:
DORIAN PHILLIPS
ADEILADWYR - BUILDING CONTRACTORS
Owain: 07879 495 653
Dorian: 07889 186 036
owain@dorianphillipsbuilders.co.uk
dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

# TRELECH

Gwellhad buan i Gwenllian Evans, Blaenwauntwr, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â David a Caroline Harries a'r teulu (Blaendewi Fawr gynt) ar farwolaeth mam Caroline sef Mrs Betty Bevan,Tregendeg. Bu'n byw yn Hendy Gwyn gyda David a Caroline dros y blynyddoedd diwethaf.

....hefyd ac Alan ac Eirwen Jones, Tower Hill. Mae Eirwen wedi colli ei brawd yng nghyfraith sef Mr Marlais Brooker o Gaerfyrddin yn ddiweddar.

Penblwydd hapus iawn a phob dymuniad da i Deiniol Rees, Ger y Gawnen ar ei benblwydd yn ddeunaw oed.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion yr ardal.

## YSGOLORIAETH

Eleni eto mae Cyngor Cymuned Trelech a'r Betws yn cynnig ysgoloriaeth i'r myfyrwyr hynny sydd yn byw o fewn y gymuned, ac yn dilyn cwrs llawn amser, di-dâl mewn addysg bellach.

Dylai'r cais gynnwys manylion y cwrs, yn ogystal â llythyr gan diwtor y myfyriwr i gadarnhau'r manylion penodol. Bydd yr ysgoloriaeth yn cael ei roi ym mis Mawrth, a bydd rhaid i'r ceisiadau gyrraedd y clerc erbyn 28ain o Chwefror 2024.

Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach, cysylltwch a'r clerc.

Elusen William Davies Charity
Plwyf Trelech a'r Betws Parish

## YSGOLORIAETH

Mae'r Ymddiriedolwyr yn bwriadu dyfarnu ysgoloriaethau am y flwyddyn 2023/2024 yn fuan ar gyfer personnau sydd wedi cychwyn ar addysg bellach neu brentisiaeth crefft.

Gellir gwneud ceisiadau ar ffurflen osodedig erbyn yr 28ain o Chwefror 2024. Gellir cael y ffurflen gais wrth y clerc:
Mrs Liza Jones, Treto Isaf, Trelech, Caerfyrddin, SA33 6SH.

Ffôn:01239 698601 / clerc@trelecharbetws.cymru

**Capel y Graig**

Ar 1af o Hydref cynhaliwyd rihyrsal ganu yng Nghapel Hermon, a'r wythnos ganlynol cynhaliwyd y Gymanfa Ganu yng Nghapel Bryn Iwan am y tro cyntaf erioed gyda D. Huw Rees yn arwain. Diolch i Eirlys Phillips a Rosemary Evans o Gapel y Graig a Linda Thomas, Pen-y-bont am gyfeilio. Diolch i Karen Owen am lywyddu'r oedfa fore ac i Marged, Lois, Owain, Iwan ac Elain am y rhannau arweiniol a hefyd ynghyd â Rosie, Ruby ac Anna am gyhoeddi'r emynau.
Cafwyd dwy oedfa ddiolchgarwch fendithiol iawn ym mis Hydref. Y cyntaf gan blant yr Ysgol Sul a'r bobl ifanc ar y 15fed o Hydref gyda Karen Owen yn annerch ac yn gweini'r cymun. Eleri Rees ac Eirlys Phillips oedd yn cyfeilio.

Y nos Fawrth ganlynol, Hydref 17eg, cafwyd yr ail oedfa gyda Karen Owen yn gwasanaethu ac Eirlys Phillips yn cyfeilio. Casglwyd arian ac eitemau o fwyd y ddwy oedfa tuag at Fanc Bwyd Caerfyrddin.

Trefnwyd oedfa ganhwyllau gan Karen Owen ar y 31ain o Hydref pan ddaeth aelodau a chyfeillion ar drothwy Diwrnod yr Holl Saint i gofio, dathlu ac i rannu gobaith.
Ar y 12fed o Dachwedd cafwyd oedfa gymun cofiadwy gan Karen Owen. Cafwyd dwy funud o dawelwch i gofio am bobl sydd wedi ac yn dioddef o ganlyniad i Ryfel. Yn ystod yr oedfa bu'n son am arwyddocad `cofio' a sut mae pobl yn cofio'n wahanol i'w gilydd am yr un digwyddiad. Cofiwyd am genhadon oedd wedi rhannu'r efengyl gydag eraill a'u dylanwad ar y gwledydd.

# EFAILWEN




Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Begw Fussell, Dolfan ar ei phenblwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Llawer o gariad wrth y teulu i gyd.xx

**Diolch:** Dymuna Begw Fussell, Dolfan, Efailwen ddiolch yn gynnes iawn i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Diolch eto. x

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau
Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler




## LLWYDDIANT BOIS BRYNHYFRYD

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a llwyddiannus iawn i Isaac a Elliott Davies o fferm Brynhyfryd, Efailwen. Mae'r ddau â diddordeb mawr mewn dilyn eu tad Simon ar y fferm yn godro, dangos a beirniadu da Holstein.

Mae Isaac wedi cynrychioli clwb Holstein De Cymru yng nghystadleuaeth barnu stoc da godro dros Brydain ac wedi bod yn hynod lwyddiannus yn cyrraedd 1af, 2il a 4ydd safle dros y blynyddoedd diwethaf. Bu hefyd yn dangos lloi yn y sioe Genedlaethol gan gyrraedd y 6ed safle. Un o gystadleuwyr pennaf Isaac yw ei frawd Elliott a enillod y 'frwydr' lleol yn Sioe lloi De Cymru, cyn mynd ymlaen i gystadlu yn y Sioe Genedlaethol eleni a cyrraedd y 10 uchaf.

Mae'r ddau hefyd yn llwyddiannus yn barnu stoc, yn enwedig da godro, ac eleni yn Rali Ffermwyr Ifanc Sir Benfro enillodd Isaac o dan 18 a Elliott o dan 16, cyn mynd ymlaen i ennill yn Sioe Frenhinol Cymru 2023 ac helpu CFfI Sir Benfro i ennill y tîm gorau yng nghystadleuaeth da godro a'r tlws barnu stoc. Mae'r ddau wedi cael y fraint o ennill tlws er cof am eu tad-cu Graham Davies am y pwyntiau uchaf yn yr adran da godro, gyda Elliott yn ennill eleni.

Wrth i dymor y sioeau ddod i ben, mae Isaac yn dathlu'r 'goron driphlyg' ar ôl ennill Pencampwr Trin Stoc yn Sioe Hwllfordd, Clunderwen a Sioe Laeth Cymru ac yntau yn ddim ond 16 oed.
Mae'r ddau yn gweithio'n galed gartre yn Brynhyfryd gyda Isaac yn astudio amaeth yn Hartbury a Elliott yng Ngholeg Llanymddyfri yn gweithio tuag at ei arholiadau TGAU y flwyddyn nesa.
Mae mam a dad yn falch iawn o'r bechgyn a'u llwyddiant, ond yn bwysicach fyth yn edrych ymlaen at ymddeol ynghynt yn hytrach nag yn hwyrach.

Mae gan Isaac a Elliott y brwdfrydedd a'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn y diwydiant amaethyddol, ond gyda'r heriau cynyddol rydym yn gobeithio bod dyfodol i'r bechgyn yn y diwydiant, er mwyn iddynt allu byw, gweithio a parhau i gyfrannu at eu cymuned wledig. Pob lwc i'r ddau.


Isaac ac Elliot - Barnu Stoc Sioe Frenhinol


Isaac ac Elliot


Sioe Lloi De Cymru

# HENDYGWYN AR DAF

"Ymweld â phob capel yng Nghymru" - dyna yw breuddwyd Eglwys Corea Cymru sydd wedi lleoli yng Nghaerdydd.

Ac fe wnaethant ymweld â'r Tabernacl, Hendy-gwyn ar ddiwedd mis Hydref. Cafwyd oedfa fythgofiadwy ganddynt ac fe wnaeth pawb gymdeithasu yn hyfryd ar y diwedd.



Ymweliad Eglwys Corea Cymru

Mae Clwb Hwyl y Tabernacl yn mynd o nerth i nerth ac mae dros ugain o blant yn ymuno bob wythnos. Mae'r clwb ymlaen bob dydd Gwener rhwng 3.30 a 4.30 a chroeso cynnes i bawb. Y plant a'u rhieni oedd yn gyfrifol am Gwrdd Diolchgarwch y plant eleni.



Clwb Hwyl y plant



Cwrdd Diolchgarwch y plant



Mae Cymdeithas y Tabernacl yn cwrdd bob mis dros y gaeaf a Vernon 'Cross' Beynon oedd y gŵr gwadd ym mis Hydref. Cafwyd anerchiad diddorol ganddo wrth iddo siarad am gymeriadau bro ei febyd.

***Penblwydd hapus yn 80 oed***

Mae un o'n haelodau wedi bod yn dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Pob dymuniad da i Ann Williams wrth iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 80.



Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

CAFFI BECA
Oriau Agor: 9.00yb–2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
✆ 01994 419735

G&S Llewellyn a'i Mab
Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Mae'r Nadolig yn agoshau a rydym yn brysur yn paratoi ar gyfer oedfaon y Nadolig. Dyma beth sydd ymlaen dros y Nadolig a chroeso cynnes i bawb ymuno gyda ni :

Clwb Hwyl y Plant bob dydd Gwener rhwng 3.30 a 4.30.

Rhagfyr 3ydd: 9.30 Oedfa Gymun
Rhagfyr 10fed: 11.00 : Oedfa Nadolig y plant a'r ieuenctid.
Rhagfyr 17eg: 11.00 : Oedfa Garolau Unedig yn Eglwys Santes Fair, Hendy-gwyn
Rhagfyr 24ain: 11.00 Oedfa Fore Noswyl Nadolig dan ofal yr oedolion ifanc.

## Cymdeithas Hywel Dda

Dyma enillwyr Clwb Cant mis Hydref:

Menna Richards - £60 • Meurig James - £50
Whitland Engineering - £40 • Allsorts - £30

## Cylch Meithrin Hywel Dda

**Noson siopa**

Diolch i bawb am gefnogi ein noson siopa eleni. Rydym wedi codi swm dda o arian ar gyfer Cylch Meithrin Hywel Dda.

Diolch i'r holl gwmnïau am gyfrannu tuag at y raffl, ac i'r stondinwyr am ddod â'u cynnyrch hyfryd. Mae digwyddiadau fel yma yn hanfodol ar gyfer codi arian i gadw'r Cylch ar agor ac i ddarparu nwyddau hanfodol, felly diolch yn fawr iawn i bawb am eu cymorth.

**Enillwyr Clwb 200 Cylch Hywel Dda**

**Mis Hydref**
1 - £40 - Rhif 11 - Sophie Oeppen
2 - £20 - Rhif 26 - Sarah Freckleton
3 - £10 - Rhif 61 - Mr & Mrs M Jones
**Mis Tachwedd**
1 - £40 - Rhif 6 - Sheila Richards
2 - £20 - Rhif 155 - Crystal Lee
3 - £10 - Rhif 96 - Jane Thomas

Diolch i bawb sydd wedi prynu rhif, rydyn ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

## Penblwydd Hapus yn 90 oed

Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i John Davies, Pen yr Ardd. Hendygwyn (Ivydene gynt) a fu'n dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar 2il o Ragfyr. Llawer o gariad oddi wrth y teulu.xx

# LLANDDEWI

**Bethel**

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Bethel yn ystod mis Hydref yn Neuadd Llanddewi.

Daeth tyrfa dda o nifer o gapeli ac eglwysi at ei gilydd. Pregethwyd gan weinidog Bethel, Guto Llywelyn ar eiriau yr Apostol Paul ar ffrwythau'r ysbryd (Llythyr at y Galatiaid, Pennod 5, Adnodau 22 a 23)

Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd gwledd o frechdannau a chacennau a oedd wedi eu paratoi gan aelodau Bethel.





# LLANGYNIN

**Gwellhad buan**

Dymuniadau gorau am wellhad buan i nifer o drigolion Llangynin sydd wedi bod yn anhwylus, a rhai wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanynt i gyd ac yn dymuno gwellhad buan i bob un ohonynt.
Da clywed bod Matthew Little, Lleifior, wedi dod adre o'r ysbyty ym Mryste ac yn gwella gan bwyll. Pob dymuniad da iddo.

**Gwobrau Bafta Cymru**




Llongyfarchiadau anferth i dîm cynhyrchu'r rhaglen Mabinogi-ogi ar ennill Categori Rhaglen Blant Orau Gwobrau BaftaCymru ! Llongyfarchiadau i Gareth Elis, mab Nigel a Sian Davies, sy'n un o'r actorion ifanc ar y rhaglen.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Laura a Rhydian Davies, Awel- y-Bryn, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. Ar Hydref 10fed ganwyd Caleb William Wyn, ŵyr bach cyntaf Sandra ac Alun Davies, Erw Ddôl.

Llongyfarchiadau i Haydn Lloyd, Ffynnonlwyd, ar ddod yn daid unwaith eto. Ar Hydref 10fed ganwyd bachgen bach, Edward Alun, i Rhodri a'i wraig Vicky, brawd bach i Diana Eleri ac anrheg perffaith iddi ar gyfer ei phen blwydd hithau yn flwydd oed ar Hydref 22ain.



Dyma Diana wrth ei bodd gyda'i brawd bach newydd, Edward.




Dyma Diana yn dathlu ei phen blwydd gyda Nanna (Marlene Lewis, Ffynnonlwyd gynt),Taid Ffynnonlwyd a Nain Dinbych. Pen blwydd hapus iddi oddi wrth y teulu oll.

**Neuadd Capel y Bryn**

Brynhawn dydd Sul, Hydref 22ain, daeth nifer o aelodau a ffrindiau i Gwrdd Diolchgarwch y Bryn, Llangynin. Y Parch. Rhodri Glyn Thomas oedd y pregethwr gwadd eleni a chafwyd oedfa hyfryd a bendithiol dan ei ofal. Llywyddwyd a chyfeiliwyd gan y Parch. Huw George. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned ar ddiwedd yr oedfa. Casglwyd llawer o nwyddau ar gyfer Lloches Menywod Caerfyrddin mewn ymateb i Apêl Diolchgarwch Tŷ Croeso Bethlehem Newydd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am eu cyfraniadau hael.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Janet Jones, Trem y Cwm, ar farwolaeth ei thad, sef Eiros Glyndwr Thomas, Cartref Gofal Woodfield, Arberth, gynt o Bryngwelltyn, Cwmfelin Boeth.

Trist oedd clywed am farwolaeth Ken Harris, Gelli Aur, Llangynin. Bu farw Ken yn dawel yn ei gartref ar Dachwedd 8fed. Roedd yn 81 oed ac yn dad i Nicky, Michael, Michelle, Darren a Naomi, yn Dadcu a Hen Dadcu ac yn frawd i Pat a Roger. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu i gyd yn eu colled.

**Pen blwyddi mis Tachwedd**

Dymunwn ben blwydd hapus i Jim Martin, Brychan, yn 87 oed ar Dachwedd 27ain, Gwennie Rees, Cheerio Stores gynt, yn 90 oed ar Dachwedd 29ain a Mary Davies, Angorfa, yn 93 oed ar Ragfyr 6ed. Llongyfarchiadau a phen blwydd hapus i'r tri ohonynt.



Llongyfarchiadau i Tudor Evans (Tudor Castell Mâl gynt) a fu'n dathlu ei ben blwydd yn 90 oed ar Dachwedd 15fed yng nghartref gofal Brynhelyg, Binie, Llanelli, yng nghwmni ei ffrindiau Claude a David James a Dorman Davies. Pen blwydd hapus a phob dymuniad da iddo.

## Clwb 60

Daeth cynulleidfa deilwng iawn ynghyd i Neuadd Capel y Bryn ar Hydref 12fed i'r cyfarfod misol pan gynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch. Cyflwynwyd y pregethwr gwadd Y Parch Guto Llywelyn gan Menna Parry a ymfalchiai ei bod yn perthyn iddo ac i deulu'r Ciliau. Seiliodd Guto ei neges ar barabl yr Heuwr a chafwyd neges arbennig o ddiddorol ganddo a diolch iddo am ei gyflwyniad. Eifiona oedd wrth yr organ a hithau hefyd ddewisodd yr emynau pwrpasol.

Gwnaed casgliad teilwng tuag at y Banc Bwyd a diolch i'r rhai a drosglwyddodd y bagiau hynny. I ddilyn mwynhawyd dished a bynen, pancos a phice ar y man oedd yn flasus dros ben.

Yng ngofal y te oedd Eifiona, Mary a Menna a diolch iddynt am baratoi'r lluniaeth. Mae trefniadau ar y gweill hefyd am y Cinio Nadolig blynyddol a gaiff ei gynnal eleni yn y Corvus, Sancler ar 14eg o Ragfyr. Cofiwch archebu eich dewis o fwyd a chofiwch dod â gwobr i'r raffl.

# C Ff I PENYBONT - Eisteddfod

Llongyfarchiadau mawr i'r holl aelodau a hyfforddwyr ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir Gâr.
Cipiodd y clwb darian yr Eisteddfod am y marciau uchaf.

**Llwyfan:**
1af Unawd 16 neu Iau - Celyn Richards
2il Llefaru 28 neu Iau - Daniel O'Callaghan
1af Canu Emyn - Daniel O'Callaghan
2il Canu Emyn - Hannah Richards
1af Unawd 28 neu Iau - Sioned Beynon
3ydd Unawd 28 neu Iau -Daniel O'Callaghan
1af Unawd Alaw Werin- Hannah Richards
2il Unawd Alaw Werin- Sioned Beynon
3ydd Unawd Alaw Werin- Celyn Richards
1af Unawd Offerynnol- Daniel O'Callaghan
3ydd Unawd Offerynnol- Tomos Morgans
2il Llefaru 16 neu Iau - Olwen Roberts
3ydd Llefaru 16 neu Iau - Gwenan Morris
2il Deuawd - Hannah a Celyn Richards
1af Parti Cerdd Dant
1af Meimio i Gerddoriaeth
1af Stori a Sain - Elen a Carwyn Jones
1af Sioe Gerdd 18 neu Iau - Celyn Richards
1af Parti Unsain
1af Monolog - Olwen Roberts
2il Monolog - Daniel O'Callaghan
1af Sioe Gerdd 28 neu Iau - Daniel O'Callaghan
3ydd Sioe Gerdd 28 neu Iau - Hannah Richards
2il Sgets
2il Dangos eich doniau
2il Dawnsio Gwerin
1af Côr

**Gwaith Cartref:**
1af Barddoniaeth- Daniel O'Callaghan yn ennill cadair yr Eisteddfod.
1af Erthygl - Elen Jones
1af Celf - Teleri James
Ail Creu Reel - Celyn Richards
3ydd Rhyddiaith - Daniel O'Callaghan
Ail - Tarian Gwaith Cartref

Yr eitemau aeth ymlaen i gynrychioli'r Sir ar lefel Cymru oedd: Côr, Parti Unsain, Parti Cerdd Dant, Meimio i Gerddoriaeth, Unawd Alaw Werin - Hannah Richards,
Unawd Offerynnol - Daniel O'Callaghan,
Unawd dan 16oed - Celyn Richards, Unawd Sioe Gerdd - Daniel O'Callaghan, a Monolog Olwen Roberts.
Bydd y canlyniadau hynny yn rhifyn mis Ionawr y Cardi Bach

**FFAIR AEAF Y SIR:**
1af Carden Nadolig- Teleri James
1af Barnu Ŵyn Cigyddion- Olwen Roberts



## PENYBONT

### *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau mawr i Carwyn Jones a Lois Morus ar eu priodas yn ddiweddar. Mae Carwyn yn fab i Andrew a Judith Jones, Penybont ac yn wŷr i Mefelda Lewis, Bronwydd. Mae Lois yn ferch i Trefor ac Elen Jones Morris, Coedpoeth. Priodwyd y ddau yng Nghapel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam ar Hydref 28ain, a chynhaliwyd y brecwast yn Tower Hill Barns, Llangollen. Maent wedi ymgartrefi yn Nhre Ioan, Caerfyrddin. Pob dymuniad da i'r ddau wrth iddynt ddechrau ar eu bywyd priodasol.



# CLUNDERWEN

**100 Mlwyddiant**

Ar 12fed o Dachwedd, cynhaliodd Cyngor Cymuned Clunderwen a Llandysilio, De Coffa i nodi 100 ers dadorchuddio Senotaff Clunderwen a Llandysilio. Roedd hyn yn dilyn gosod torch yn Clunderwen ac yna oedfa yn Eglwys Clunderwen.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Christey Smith ac Annie Mariani o Cottons Creche, ar enedigaeth mab ar 1af o Dachwedd.

**Adweitheg (Reflexology)**



Mae adweitheg yn awr ar gael yn Fferyllfa Clunderwen ar ddydd Llun. Mae Louise Stevens yn gwbwl gymwys ac yn therapydd profiadol ac yn aelod o'r 'Federation of Holistic Therapists' yn arbenigo yn adweitheg. Mae llawer o fanteision i adweitheg, gall fod o gymorth gyda straen, gor-bryder, tensiwn a gwella hwyliau a chwsg ac hyrwyddo lles cyffredinol.

**Sefydliad Y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol ar 6ed o Dachwedd - dyma oedd rhaglen y flwyddyn :

Rhagfyr 2022 - Gwneud torch Nadolig a cinio Nadolig yn Nantyffin.

**2023**

Ionawr - Siaradwr o Neal's Yard.
Chwefror - Ymweliad â "Revelation Embroidery and print".
Mawrth - Siaradwr ar "Track and Trace".
Ebrill - Coginio Pasg.
Mai - Macrame "feather making".
Mehefin - Ymweliad a gerddi Cilrath
Gorffennaf - Helfa Drysor cerdded yn Arberth.
Awst - Mynd am dro.
Medi - Cynllunio syniadau i ddathlu 100 mlwydd oed blwyddyn nesaf.
Hydref - Gwaith crefft ffeltio.
Tachwedd - Cyafrfod Blynyddol.

Gweithgareddau ychwanegol, sef cystadlu yn 'Anything Goes' yn y Torch; Gwisgo lan fel priodferch amser rhyfel; Helpu yn Sioe Clunderwen; Cwis, Cyrlio a mwy. Blwyddyn brysur a llwyddiannus.

Os ydych am ymuno a ni, bydd yna groeso mawr a paned yn aros i chi. Rydym yn cwrdd yn Neuadd Clunderwen ar nos Lun cyntaf o bob mis am 7.30yh.

## Hir yw pob aros !!



Ar ôl dros 30 o flynyddoedd derbyniodd Sharon Gibby ei chap fel gwerthfawrogiad am chwarae i dîm rygbi merched Cymru. Cyflwynwyd y cap iddi gan Gerald Davies ond fe'i gwelir yn y llun gyda Warren Gatland yn Stadiwm y Principality ar Dachwedd 4ydd.

# LLANDYSILIO

**Penblwyddi**

Llongyfarchiadau i Skeel Harries, Pencnwc, ar ddathlu ei benblwydd yn 96 oed yn ystod mis Hydref.

....hefyd i Delyth Roblin yn 60 oed ar 18fed o Dachwedd.

**Cydymdeimlo**

Ddrwg clywed am farwolaeth "Group Captain" Christopher Cho-Young, Blaendolau, Llandysilio. Gŵr cariadus Olive, brawd-yng-nghyfraith annwyl i Eirlys a Geoff, John a Kathryn, ewythr annwyl i Michelle ac Aled, Emily, Laura a James, hen ewythr i Morgan a Menna. Bu farw ar 16eg o Hydref, yn 78 oed. Cydymdeimlwn gyda'r teulu oll.

**Graddio**



Mae Wendy Thomas, wedi llwyddo yn ei ILM Tystysgrif lefel 7 ar gyfer lefel Gweithredol ac Uwch Hyfforddwyr a Mentoriaid sy'n gyfatebol a gradd Meistr. Roedd y Seremoni raddio yn Llundain.
Mae Wendy yn cymhwyso ei sgiliau drwy ei rôl gyda Banc Barclays, ac yn allanol, a gweithio ym musnes ei phartner Dave.
Gynt o Llandysilio, mae Wendy nawr yn byw yn Templeton. Merch hynaf Len a Sheila Jones o Gaerfyrddin (gynt o Fronhaul, Llanboidy, a Ffynnonwen, Blaenwaun).

**Pwyllgor Neuadd Llandysilio**

Bydd ein Pwyllgor nesaf ar 11eg o Rhagfyr yn Neuadd Llandysilio am 7.30. Croeso i chi ymuno â ni.



## *Penblwydd hapus*

Dymuniadau gorau i Delyth Roblin a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 60 oed yn ddiweddar.

# NEWYDDION BLAENCONIN

### Diolchgarwch y Plant

Daeth disgyblion Ysgol Brynconin i Flaenconin yn ystod y mis i gynnal oedfa o Ddiolchgarwch a braf oedd cael eu croesawu.

Thema'r oedfa oedd 'Gofalu am y Byd' ac roedd y plant wedi bod yn ymarfer a chafwyd nifer o ganeuon ac eitemau hyfryd a swynol ganddynt.

Disgyblion yr Ysgol oedd yn gyfrifol am lywyddu'r gwasanaeth a gwnaed hynny yn urddasol iawn.
Yn ei anerchiad, gwahoddodd Huw'r disgyblion i adnabod baneri nifer o wledydd ac roedd y plant yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gywir bob tro. Mae'n amlwg eu bod yn mwynhau dysgu am y byd. Hyfryd oedd eu gweld yn gwenu a chwerthin gan ymateb yn hyderus a chyfrannu i'r neges.

Byrdwn y neges oedd ein bod i gyd yn gyfrifol am ofalu am y byd ac roedd disgyblion Ysgol Brynconin yn ymwybodol o hynny. Diolch iddynt. Hyfryd oedd gweld nifer o rieni yn bresennol – rhai yn ymweld â'r Capel am y tro cyntaf.
Mewn hinsawdd sydd yn gweld mwy a mwy o bobol yn cefni ar grefydd, hyfryd yw gweld athrawon ac Ysgolion sydd yn barod i gyflwyno cyfleon i'r disgyblion i glywed am Dduw.
Diolch i'r prifathro, Edryd Eynon, ac athrawon yr Ysgol am gynnal yr oedfa ym Mlaenconin.

### Seren yn serennu

Mae grŵp ym Mhontypridd wedi atgyfodi hen draddodiad Cymreig y Tŷ Unnos, er mwyn cynnig sgiliau newydd i bobl ifanc.

Yn ôl y gred chwedlonol roedd modd i unrhyw un a oedd yn codi tŷ, a oedd â mwg yn dod allan o'r simnai erbyn y bore ar dir comin, yr hawl i fyw yno. Roedd gyda nhw hefyd hawl i'r tir mor bell ag oedden nhw'n gallu taflu bwyell o'r tŷ. Aeth grŵp o bobl ifanc ati i adeiladu tŷ ar dir comin Coedpenmaen, fydd yn sefyll dros dro.
Pwrpas y prosiect, medden nhw, fydd rhoi cymorth i bobl ifanc i ddatblygu nifer gwahanol o sgiliau o fewn y diwylliant celfyddydol.

Y nod hefyd fydd sbarduno sgyrsiau am hunaniaeth, diwylliant a materion cyfoes. Dywedodd Luci a Seren, gweithwyr celf ifanc o Citrus Arts bod y sgiliau mae'n nhw yn dysgu wrth wneud y prosiect "ddim yn just helpu ni yn y prosiect, mae'n helpu ni yn y dyfodol hefyd". "Mae'n dangos lot o lwybrau gwahanol."
Dywedodd Luci, "Un o'r rhesymau dros y prosiect yw i gynnal sgwrs, a siarad am broblemau cartrefi yng Nghymru. "A fi fel person ifanc yn sylweddoli pa mor anodd yw hi."



A'r Seren yn y darn uchod yw Seren Lewis, merch Carina a Colin Lewis.
Llongyfarchiadau i Seren a diolch iddi am dynnu'n sylw tuag at ddigartrefedd yng Nghymru.
Mae Seren yn weithgar iawn ac yn barod bob amser i gynorthwyo.




Hyfryd oedd cael croesawu aelodau a chyfeillion mudiad Ffermwyr Ifanc Sir Benfro i Flaenconin a hwythau'n awyddus i gynnal Oedfa o Ddiolchgarwch. Braf oedd gweld y bobol ifanc yn barod i gyfrannu i lwyddiant y gwasanaeth.

Gwahoddwyd Huw i ddweud gair ac yna, cyflwynodd aelodau Clybiau'r Mudiad roddion ar gyfer Banc Bwyd Arberth.

Bwyd Byd Byd

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com




**Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar**



Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
**GWION JENKINS**
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

## Llongyfarchiadau

Mae Siôn Jenkins a chriw'r 'Byd ar Bedwar' wedi derbyn canmoliaeth a chydnabyddiaeth yng ngwobrau Bafta Cymru 2023 yn adran newyddion, materion cyfoes a phynciol. Anrhydeddwyd Siôn a'i gyfeillion am y rhaglen ar Gost Cwpan y Byd Qatar 2022.

**Trefn oedfaon**

**Dydd Sul, 10fed Rhagfyr**
Bore Coffi Ratifa - 10.00 y bore
Oedfa Gymun - 10.30 y bore

**Dydd Mercher 13eg Rhagfyr**
Oedfa Nadolig
Cylch Meithrin Ffynnonwen
ym Mlaenconin am 9 y bore

**Nos Wener 15fed Rhagfyr**
Cyngerdd Ambiwlans Awyr Cymru
ym Mlaenconin
yng nghwmni Côr Serendipity

**Dydd Sul, 17eg Rhagfyr**
Oedfa Bregeth - 10.30 y bore

**Dydd Sul, 24ain Rhagfyr**
Oedfa Nadolig - 10.30 y bore

Unwaith eto, mae rhai o chwiorydd Blaenconin a ffrindiau wedi bod yn gwau festiau, er mwyn helpu "Fish and Chip Babies" yn yr Affrig. Maent wedi gwneud hyn nifer o weithiau. Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn falch iawn i'w derbyn ac yn gwneud yn siwr eu bod yn cyrraedd y man iawn.

Gelwir y prosiect hyn yn "Fish and Chip Babies" oherwydd mae'r babanod yn mynd adref o'r ysbyty wedi lapio mewn papur newydd gan fod y rhieni yn rhy dlawd i brynu dillad neu flancedi.

# RHYDYCEISIAID

**Pulpud**

Braf oedd cael gwasanaeth y Parchedig Guto Llywelyn yn oedfa'r Cymun Sul, Tachwedd 5ed a diolch iddo. Hyfryd oedd cael cwmni Eifiona Lewis yn yr oedfa, ac am baratoi'r Cymun a diolch iddi.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhodri a Vicky Lloyd, Myrtle Llanboidy ar enedigaeth mab sef Edward Alun Lloyd, brawd bach i Diana Eleri.

...hefyd i Haydn Lloyd, Ffynnonlwyd ar ddod yn Dadcu eto ac i Mr a Mrs Sion Davies, Fferm y Coomb ar ddod yn Ddadcu a Mamgu eto.

...hefyd i Marlene Lewis, Hafan Glyd ar ddod yn Hen Famgu eto ac i Mrs Lloyd yn y gogledd ar ddod yn Hen Nain eto.

....hefyd i Miss Gwennie Rees, Cartref Maes Llewelyn Castell Newydd Emlyn a gynt o Cheerio Villa, Llangynin a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Dachwedd 29ain. Dymuniadau gorau i Gwennie oddi wrth yr holl aelodau, yr aelod hynaf yn Rhydyceisiaid. Cofiwn amdanoch yn wresog iawn.

....hefyd llongyfarchiadau i Ronnie Morgan a fydd yn 89 oed ar Ragfyr 23ain ac i Mair Morgan a fydd yn 85 oed ar Ragfyr 18fed.

## Penblwydd hapus yn 18 oed



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r dyfodol i Thomas Adams, Park Avenue, Cilgeti a fu'n dathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed ar Hydref 29ain.

Cyfarchion oddi wrth Dad, Amy a Mamgu Hendygwyn a Mam, Megan a Charlotte Cilgeti a'r teulu oll.

Bar Beca
Bar Beca Efailwen
GROTO SION CORN
Rhagfyr 23ain a 24ain
12-4 yp

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BECA

**Ffarwelio â Miss John a Mrs Russant**

Mae hi'n dymor trist iawn yma yn Ysgol Beca y tymor yma. Rydym yn ffarwelio a dwy aelod o staff, Miss Angharad John a Mrs Vicky Russant. Mae wedi bod yn bleser i weithio gyda chi a hoffwn ddiolch am bob dim rydych wedi gwneud i'r ysgol a'r gymuned agos. Er byddwn yn gweld eich eisiau yn fawr iawn, rydym ni gyd fel teulu Ysgol Beca yn dymuno pob lwc i chi am y dyfodol!

**Llwyddiant y Gwasanaeth Diolchgarwch**

Ar brynhawn Iau, 26ain o Hydref aethom fel ysgol gyfan i Gapel Nebo er mwyn cynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Ar ôl wythnosau o ymarfer roedd y plant yn frwd ac yn barod i berfformio i'r gynulleidfa. Hoffem ddiolch i'r Parch, Guto Llywelyn, am ymweld â ni ac i gymdeithas y capel am ein croesawu i'r capel. Hoffem hefyd ddiolch i Miss Elen Maycock am chwarae y piano trwy gydol ein gwasanaeth. Diolch i rieni ac i'r gymuned am ddod i gefnogi ac am eu haelioni yn ystod y casgliad tuag at elusen sydd yn agos iawn atom fel ysgol. Casglwyd dros £100 i elusen Marchogaeth i'r Anabl.

**Cystadleuaeth CogUrdd**



Bu criw o gogyddion Ysgol Beca yn brysur iawn ar brynhawn ddydd Mercher, 11eg o Hydref. Eu sialens oedd paratoi 'Salad'. Ar ôl 45 munud o waith caled, roedd yn amser i'r beirniad ddewis y salad buddugol. Llongyfarchiadau i Osian a fydd yn cynrychioli'r Ysgol yn y rownd nesaf. Da iawn hefyd i Ianto am ddod yn ail ac i Celyn am ddod yn drydydd. Diolch enfawr hefyd i Mrs Janet Harries o Gaffi Beca am ddod i feirniadu'r gystadleuaeth.

**Croesawu Ysgol Bro Brynach**



**Diwrnod Shwmae Sumae**



Cawsom ddiwrnod hwylus yn dathlu diwrnod Shwmae Sumae eleni, gydag amryw o weithgareddau wedi'u paratoi ar gyfer y dydd. Yn y bore trefnwyd tasgau hwyl i ddathlu ym mhob dosbarth, ac yn y prynhawn, trefnwyd disgo Ysgol gyfan gan wrando ar gerddoriaeth Cymraeg.

# YSGOL BRYNCONIN

**Diwrnod T. Llew Jones**

Braf oedd dathlu bywyd yr awdur a'r bardd enwog o Gymru ar ddydd Mercher, 11eg o Hydref. Cafodd y plant gyfle i ddysgu am fywyd yr awdur a'r bardd ac hefyd dysgu rhai o'i farddoniaeth. Creuwyd murlun o waith Diwrnod T. Llew Jones yn Ogof Waldo (Llyfrgell yr Ysgol).

**Diwrnod Shwmae**

Braf oedd cael dathlu diwrnod Shwmae ar ddydd Llun, 16eg o Hydref ac hyfryd oedd gweld pawb wedi gwisgo mewn lliwiau coch, gwyn a gwyrdd. Cafwyd hwyl yn y parti i ddathlu penblwydd Diwrnod Shwmae yn 10

mlwydd oed a chafwyd cyfle i greu hetiau parti, chwarae gemau parti yn y Gymraeg, cynnal cwis Cymraeg ac yna gorffenwyd y dydd gyda disgo Cymraeg. Diolch i Miss Davies ac aelodau Cabinet Iaith a Diwylliant am drefnu'r diwrnod.

**Cwrdd Diolchgarwch**

Cafwyd prynhawn arbennig yng Nghapel Blaenconin dydd Mercher, 25ain o Hydref pan gynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch. Ein thema eleni oedd 'Y Byd Mawr Crwn' a diolch i'r plant am berfformio eu rhannau mor dda. Diolch hefyd i'r Parchedig Huw George a roddodd anerchiad arbennig a phwysig i'r plant, i aelodau Capel Blaenconin am adael i ni ddefnyddio'r Capel ac i bawb oedd wedi cyfrannu tuag at ein casgliad i'r elusen 'Make a Wish'. Codwyd swm o £165 tuag at yr elusen arbennig.



**Cogurdd**

Da iawn i bawb a gymerodd rhan yng nghystadleuaeth Cogurdd a gynhaliwyd ar brynhawn Iau, 26ain o Hydref. Diolch o waelod calon i Miss Shirley am roi ei hamser i feirniadu. Roedd y safon yn uchel iawn a llongyfarchiadau enfawr i Cynan Makepeace a ddaeth yn fuddugol. Dymunwn yn dda i Cynan pan fydd yn cynrychioli Ysgol Brynconin yn rownd sirol ar fore Mercher, 22ain o Dachwedd.



**Criw Craff**

Fe fwynhaodd plant Dosbarth Rhuddem yn fawr iawn yng ngweithdy cadw'n ddiogel – Criw Craff, ar faes Sioe Hwlffordd ar ddydd Gwener, 10fed o Dachwedd. Pwrpas y gweithdy oedd rhannu gwybodaeth ar sut i gadw'n ddiogel mewn sefyllfaoedd gwahanol, e.e. ar fws, diogelwch bwyd, diogelwch ar y fferm a diogelwch ar y traeth.

**Seremoni Cofio**

Cynhaliodd Dosbarth Rhuddem seremoni arbennig i gofio am yr holl bobl sydd wedi colli eu bywydau mewn rhyfeloedd ac hynny ar bwys y gofeb ym mhentref Llandysilio ar fore Llun, 13eg o Dachwedd am 11 o'r gloch. Cyflwynwyd torch o babis ar ran Ysgol Brynconin.

**Cynhadledd ECO**

Cymerodd aelodau hŷn Cabinet Iechyd a Lles yr Ysgol rhan mewn cynhadledd ECO yn Neuadd y Sir, Hwlffordd ar ddydd Mercher, 15fed o Dachwedd. Cafwyd cyfle i rannu syniadau o ran gwaith ECO.

**Twrnament Pêl Rwyd yr Urdd**

Da iawn i dîm Pêl Rwyd Cymysg yr Ysgol am gymryd rhan mewn twrnament pêl rwyd yr Urdd ar ddydd Iau, 16eg o Dachwedd yn Ysgol Uwchradd Hwlffordd. Chwaraeodd y plant yn dda.




**Plant Mewn Angen**

Roedd aelodau Senedd yr Ysgol wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen dydd Gwener, 17eg o Dachwedd. Cafwyd cyfle i wisgo mewn sbotiau a chafwyd prynhawn arbennig yn dyfalu enw y tedi, sawl tudalen sydd yn y llyfr, stondin gacennau, gemau buarth a hwyl wrth ddawnsio. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael tuag at yr elusen a llwyddwyd i godi swm dda i Blant Mewn Angen.

---

Cyfraniadau

| | |
|---|---|
| Raymond a Barbara Owen, Talybont, Gwynedd | £25 |
| Mrs Jean Jones, Efailwen | £10 |
| Mrs Dorothy Jenkins, Stryd y Parc, Hendygwyn | £10 |

*Diolch yn fawr*

# YSGOL HAFODWENOG

Diwrnod Shwmae, Sutmae



Ar ddydd Llun Hydref 16eg, dathlodd Ysgol Hafodwenog Diwrnod Shwmae Sut mae yn yr ysgol. Cawsom gyfle i addurno bisgedi, gwneud tatŵs glitter a pheintio wynebau, gweithgareddau lliwio a disgo i orffen y diwrnod. Daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo yn goch, gwyn a gwyrdd. Diolch yn fawr i'r Criw Cymraeg am helpu rhedeg y dathliad, roedd pawb wedi joio mas draw.

*Marged*



**Cystadleuaeth CogUrdd**

Eleni roedd rhaid i ni wneud salad ar gyfer cystadleuaeth Cogurdd. Roeddwn ni wedi mwynhau creu salad lliwgar ac roedd yn gyfle gwych i fod yn greadigol, fe wnes i lwyddo i greu Mr Urdd. Roedd tipyn o gystadleuaeth eleni gyda rhan fwyaf o flwyddyn 4, 5 a 6 yn cymryd rhan. Fe wnes i ddod yn gyntaf eleni gyda Rosie yn 2il a Eres ac Anest yn 3ydd. Diolch yn fawr i Mrs Rhian Jones am feirniadu'r gystadleuaeth, roedd ganddi waith caled iawn. Roedd pob salad yn edrych yn ardderchog ac yn flasus. Rwy'n edrych ymlaen at fynd i gystadlu yn y rownd nesaf ym Mro Myrddin ar ddiwedd mis Tachwedd. *Cari-Hâf*

**Cwrdd Diolchgarwch**

Ar ddydd Mercher Hydref 25ain, cawsom gwrdd diolchgarwch yng Nghapel y Graig Trelech am 2 o'r gloch y prynhawn. Eleni hapusrwydd oedd thema ein gwasanaeth. Roedd hi'n hyfryd i weld sut gymaint o bobol yno yn y capel.

Daeth Gareth Evans o ymatebwyr cyntaf Castell Newydd Emlyn i'r gwasanaeth i sôn am ei waith oherwydd roedd y casgliad yn mynd i'r ymatebwyr cyntaf eleni. Roedd tipyn o sŵn yn y pentref oherwydd roedd pawb yn canu seiren y car ar ôl y cwrdd. Diolch yn fawr iddo am ei amser ac am ddangos y car ar offer y mae'n ddefnyddio, i bawb. Cyfanswm ein casgliad eleni oedd £314.60. Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gyfrannu.

*Owain*

**Diwrnod Plant Mewn Angen**




Ar ddiwrnod Plant Mewn Angen roedd y cyngor Ysgol wedi trefnu parti a chacennau i godi arian i elusen Plant Mewn Angen. Diolch yn fawr iawn i Angela o gwmni cegin Mam Mam am rhoi y cacennau i'r Ysgol ar gyfer y diwrnod. Daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo'n felyn neu mewn pyjamas. Roedd pawb wedi joio mas draw. Eleni rydyn ni wedi llwyddo i godi £111.58. *Marley*

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Diwrnod T Llew Jones**

Ar Hydref 11eg cafodd ein disgyblion lawer o fwynhad wrth ddathlu Diwrnod T. Llew Jones. Bu'r plant yn ymchwilio i fywyd yr awdur enwog, peintio lluniau, darllen storiau a chreu dawns arbennig i gyd-fynd gyda cherdd 'Dawns y Dail.'

**H THOMAS a'i FAB**
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

**D. E. PHILLIPS**
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
*Cartref Oddi Cartref*

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

**Gemau Buarth**
Daeth Gwyneth o Fenter Gorllewin Sir Gâr i'r ysgol i gynnal sesiwn Gêmau Buarth. Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 6 hwyl wrth chwarae gêmau newydd cyffrous. Edrychwn ymlaen i weld Blwyddyn 6 yn cyflwyno'r gemau yma i'r plant bach.

**Diwrnod Shwmae Sumae**
Roedd hi'n hyfryd clywed disgyblion yr ysgol yn cyfarch ei gilydd a'r staff gyda gwên a 'Shwmae'.
Roedd y dosbarthiadau yn llawn cyffro a chynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau i ddathlu'r diwrnod arbennig hwn, a chafwyd ymweliad arbennig gan Magi Ann.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**



Braf oedd croesawu rhieni disgyblion Blwyddyn 6 i ymuno â ni yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni. Cyflwynwyd eitemau amrywiol gan y disgyblion. Diolch i'r Maer, Mrs Annalyn Davies am annerch y disgyblion a'r Parchedig Sarah Llewellyn am gymryd rhan. Casglwyd tuag at Fanc Bwyd Hendy-gwyn. Diolch am bob cyfraniad.
Diolch yn fawr i Helen Ryan o Fanc Bwyd Hendy-gwyn a ddaeth i gasglu'r holl fwyd.

**Pêl-droed**
Llongyfarchiadau i Elis Williams a Lottie John am gael eu dewis ar gyfer Carfan pêl-droed Ysgolion Sir Gaerfyrddin.

**Yr Heddlu**
Cyn y gwyliau cawsom ymweliad gan yr heddlu. Fe wnaethant atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar Noson Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt.

**Ambiwlans Cymru**
Diolch i Ambiwlans Cymru am eu cyflwyniad 'Shoctober'. Dysgodd ein disgyblion am dechnegau achub bywyd a defnydd cywir o diffibriliwr

**Parti Calan Gaeaf CRAFf**
Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang unwaith eto ym mharti Calan Gaeaf y gymdeithas. Roedd y disgyblion a nifer o rieni wedi gwneud ymdrech arbennig gyda'u gwisgoedd. Diolch i S&S Entertainments am gynnig eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

**Gwersyll Pentywyn**
Cafodd Blwyddyn 6 Mr.Toms a Mrs.Thomas amser hwylus iawn yng ngwersyll Pentywyn. Bu'r plant yn cymeryd rhan mewn tasgau awyr agored gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau cyd-weithio fel tîm. Cafodd y plant gyfle i ddatblygu sgiliau gan gynnwys dringo, canŵio a chyfeiriannu. Diolch i staff y gwersyll am eu brwdfrydedd wrth hyfforddi'r plant.

**Rhaglen Gwenyn Coed y Mêl**
Daeth cynrychiolydd o 2B Enterprising i'r ysgol yn ddiweddar i gyflwyno rhaglen sgiliau entrepreneuraidd i blant dosbarth Rhiannon. Diolch yn fawr i'r cwmni lleol Obsidian Developments Ltd am ariannu'r fenter.

**Newyddion Ni – S4C**
Gwariodd Natalie Jones fore yn yr ysgol yn trafod rhaglen Newyddion Ni gyda disgyblion Blwyddyn 6. Cafodd y plant gyfle i leisio barn ar arddull a chynnwys y rhaglen gan gynnig gwelliannau i ddenu plant i wylio'r newyddion drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cogurdd**
Bu nifer fawr o ddisgyblion yn cystadlu yng nghystadleuaeth Coginio'r Urdd – Cogurdd. Y dasg oedd i baratoi salad. Roedd yn rhaid i'r plant arddangos sgiliau cynllunio, trafod cyllell, gweithio i amser ac arddangos y bwyd yn ddeniadol. Sofia Pearce oedd yn llwyddiannus ac yn awr bydd yn cystadlu yn rownd y rhanbarth cyn ddiwedd Tachwedd. Pob lwc iddi a da iawn i bawb a wnaeth gystadlu.

**Arbed Dŵr**
Bu'r disgyblion yn gwisgo dillad glas i gefnogi 'Water Night UK' i arbed dŵr trwy leihau defnydd, nad yw'n hanfodol, ac osgoi gwastraff.

**Cystadleuaeth Tân Gwyllt**
Trefnwyd cystadleuaeth gan Gymdeithas Cymunedol Sancler i gynllunio poster noson tân gwyllt. Enillwyd y gwobrau sef tocyn teulu i gael mynediad am ddim i arddangosfa Sanclêr 2023, gan Elijah, Jude ac Enzo.

**Sul y Cofio**



Bu'r Pwyllgor Parchu Hawliau yn gwerthu pabis coch a nwyddau eraill i godi arian i'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Aeth y pwyllgor i lawr I'r gofeb i osod torch. Bu Ileana a Caspar yn cynrychioli'r ysgol yn y seremoni swyddogol ar Sul y Cofio gan osod dorch arall ar y gofeb.

**Plant Mewn Angen**
Cafwyd diwrnod o hwyl a sbri ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Daeth y disgyblion a'r staff i'r ysgol yn eu pyjamas gorau. Cynhaliwyd raffl fawr gyda Lucas yn ennill y brif wobr o gacen Pudsey yr arth.

**Siân Corn**



Daeth Siân Corn i'r ysgol i ddiddanu disgyblion y Meithrin a'r dosbarthiadau Derbyn. Darllenodd Siân stori Nadoligaidd hudol cyn arwain y plant mewn dawns a gweithgareddau llond sbort a sbri.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Diwrnod Shwmae Su'mae?**

Bu Criw Siarter Iaith yr Ysgol yn brysur yn rhoi gwasanaeth i'r disgyblion am hanes a phwysigrwydd diwrnod Shwmaw Su'mae yn ogystal â threfnu helfa drysor hwylus. Roedd yn gyfle gwych i atgoffa pawb fod yr iaith Gymraeg yn perthyn i ni gyd.

**Perfformiad Arad Goch**



Cafodd disgyblion Dysgu Sylfaen y cyfle i fwynhau perfformiad hwyliog a cherddorol gan Theatr Arad Goch 'Ble mae'r dail yn hedfan'. Fe helpodd y disgyblion y cymeriadau i greu cartref newydd gyda deunyddiau naturiol fel dail, brigau a phren a dysgwyd am bwysigrwydd cyfeillgarwch, cydweithio a gofal.

**Diwrnod Ffederasiwn Beca a Bro Brynach**

Cynhaliwyd diwrnod hwyl ar gyfer Ffederasiwn Beca a Bro Brynach y tymor yma. Teithiodd disgyblion CA2 o Fro Brynach i Ysgol Beca i chwarae gemau yn ogystal â chymryd rhan mewn cwis am Gwpan Rygbi'r Byd. Cafodd disgyblion Dysgu Sylfaen y Ffederasiwn amser da yn chwarae ystod o gemau buarth yn Ysgol Bro Brynach.

**Tîm Rygbi Cymysg**



Llongyfarchiadau i dîm rygbi cymysg yr ysgol a lwyddodd i ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd, Rhanbarth Gorllewin Myrddin yng Nghlwb Rygbi Pontyberem. Chwaraeodd y tîm yn arbennig a sgoriwyd nifer o geisiau.

**Cwrdd Diolchgarwch**

Hyfryd oedd medru dychwelyd i Eglwys Sant Brynach yn y pentref ar gyfer ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Cyflwynodd pob dosbarth eitem hyfryd ar y thema heddwch. Daeth y Parchedig Shirley atom hefyd i annerch y plant, diolch yn fawr iddi am roi ei hamser i ni. Ar ddiwedd y gwasanaeth bu'r disgyblion yn casglu tuag at Fanc Fwyd Caerfyrddin. Diolch i haelioni'r rhieni a'r gymuned, llwyddwyd i gasglu £271.34.

**Diwrnod Ffrengig**

Cafodd disgyblion CA2 ddiwrnod arbennig yn dathlu diwrnod Ffrengig ar ôl astudio Cwpan Rygbi'r Byd yn dilyn ein thema 'Mi welaf i…'. Gwnaeth y disgyblion wisgo fyny mewn modd i gynrychioli Ffrainc, samplwyd amrywiaeth o fwydydd traddodiadol, dysgu symudiadau ac ail-greu dawns werin draddodiadol Ffrainc gan Fenter Gorllewin Sir Gâr, a derbyn eu gwers Ffrangeg olaf gan Fadam Davies. Am hwyl a sbri!

**Ymwelwyr**




Braf oedd derbyn ymweliad sbesial iawn gan Shan Cothi a Trystan Llŷr Griffiths ar ôl i'r ysgol lwyddo i ennill cystadleuaeth 'Byd O Heddwch' gan 'Coco a Cwtsh'. Cafodd y disgyblion gyfle i wrando ar berfformiad byw gan Shan Cothi a Trystan Llŷr yn canu'r anthem answyddogol 'Byd O Heddwch'. Canodd y disgyblion y gân i Shan Cothi a Trystan Llŷr ac yna bu pawb yn cyd ganu'r anthem. Am ddiwrnod bythgofiadwy!

Daeth yr heddlu mewn i siarad gyda phlant hŷn yr Ysgol am beryglon Noson Tân Gwyllt a Chalan Gaeaf, a'n dysgu am sut i gadw'n ddiogel yn ystod y dathliadau.

**Gweithdy Swyn**

Diolch i Siân Elin a Krystal Lowe am ddod i'r ysgol i gynnal gweithdy hudolus gyda disgyblion Dysgu Sylfaen ar y stori Whimsy. Edrychwn ymlaen at weld y sioe cyn hir.

**Gemau Buarth**

Diolch i Gwyneth o Fenter Gorllewin Sir Gâr am gynnal sesiwn gemau buarth gyda dosbarthiadau Lliwe, Sien, Gronw a Cynin. Cafodd pawb hwyl a sbri yn chwarae amryw o gemau buarth newydd.

## Cymdeithas Genedlaethol hen geir Wolseley



Dyma lùn o Ernest a Janet Jones, Heol Bronwydd, Caerfyrddin, yn dangos y cwpan hyfryd oeddent wedi ennill am drefnu'r digwyddiad gorau am y flwyddyn 2022 / 23 gan Gymdeithas Genedlaethol hèn geir Wolseley.

Cyflwynwyd y cwpan gan yr enwog Sarah Crabtree, o'r rhaglen deledu Bangers and Cash. Trefnwyd penwythnos hìr yn Nant y Ffin yn mis Ebrill sef y "Spring Drive". Daeth deunaw o hen geir o bob rhan o Gymru a Lloegr.

Pawb wedi mwynhau teithio o amgylch Sir Benfro ar y dydd Sadwrn ar dydd Sul. Diolch hefyd i Emrys ac Ann Murrow a'r tîm yn Nant y Ffin am y croeso a'r bwyd bendigedig.

# Hwb Trafod Cyd-Enwadol

Daeth tua 60 o bobl ynghyd yn Neuadd Maenclochog ar Hydref 18fed i drafod dyfodol ein heglwysi yn y dyddiau heriol rhain. Tyfodd hedyn y syniad am y cyfarfod hwn o gwrdd deiaconiaid ym Mhenybont, Casblaidd ym mis Medi llynedd. Gyda ymddeoliad y Parchg Geoffrey Eynon ar y gorwel, rhaid oedd trafod y ffordd ymlaen i'r ofalaeth.

Roedd hi'n galonogol i weld cynifer wedi ymgynnull mewn ysbryd o gyd-weithio er mwyn sicrhau dyfodol achos Crist yng Ngogledd Sir Benfro.

Cafwyd arweiniad i'r prynhawn gan y Parchedigion Dyfrig Rees (Annibynwyr), Judith Morris (Bedyddwyr), Martin Spain (yr Eglwys Ddiwydiedig Unedig) ac Ainsley Griffiths (yr Eglwys yng Nghymru), ac ar ôl lluniaeth ysgafn a baratowyd gan Mr Ian Eynon, cafwyd hanner awr o drafodaeth mewn grwpiau.

Pwrpas y grwpiau trafod oedd i gyfnewid syniadau positif ac ymarferol bydd yn ein galluogi i gynnal ein heglwysi, ychwanegu at ein cynulleidfaoedd a gwynebu'r dyfodol gyda hyder ac optimistiaeth. Bu'r drafodaeth yn fywiog a chasglwyd nifer o syniadau diddorol at ei gilydd. Bydd ysgrifennydd y Cyfundeb nawr yn trefnu a dosbarthu'r syniadau i'r sawl oedd yn bresennol, ac i'r rhai oedd yn methu bod yn y cyfarfod.

Bydd cyfarfod arall ym mis Chwefror pan fydd cyfle gyda'r eglwysi i rannu unrhyw ddatblygiadau positif sydd wedi digwydd ers y cyfarfod hwn a thrafod y ffordd ymlaen yn fanylach. Cynigwyd i drefnu amser a fydd yn fwy cyfleus i'r rhai ifanc sy'n gweithio yn ystod y dydd.



Cyn cyhoeddi'r fendith, diolchodd y Parchg. Ken Thomas, Llywydd y Cyfundeb, i bawb am eu cefnogaeth a'u harweiniad.

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn 07967 220289

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED

Ffôn Symudol:
07919 524569


## Cofio Bryan Owen

Cerdd i gofio fy mrawd Bryan Owen, a fu farw Tachwedd 2il 2022 Roedd y teulu wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin ond un o blant Hebron oedd Bryan ac yno bellach mae ei weddillion daearol yn gorffwys.

**Carden Pen Blwydd (Medi 2022)**

Mae'n garden i'w thrysori,
Ni welir byth ei thaflu,
Y llawysgrifen dan i chlawr
Y gwnaf yn awr anwesu.

Ces gyngor i ymlacio
A chefni ar y gwaith,
I ddathlu mewn llawenydd,
Cam arall ar y daith.

Tu ol i'th eiriau cynnes,
Synhwyrais y cwmwl du,
Yn taflu ei gysgodion
Dros eich haelwyd chi

Hen awel fain a chreulon
Ddaeth â'r cwmwl yn 'i chôl,
O gaethiwed yr hen elyn
Doedd dim ffordd yn ol.

Mae'n garden i'w thrysori,
'Da gofal gwnaf ei thrin,
Gan wybod gyda thristwch,
Mai dyma'r olaf un.

*Raymond*




# Bysiau Cwm Taf

## Teithiau Undydd 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sadwrn | 3ydd Chwe | Caerdydd - Cymru v Alban (Rygbi 6 gwlad) | £20.00 |
| Sul | 10fed Maw | Caerdydd - Cymru v Ffrainc (Rygbi 6 gwlad) | £20.00 |
| Sadwrn | 16eg Maw | Caerdydd - Cymru v Eida. (Rygbi 6 gwlad) | £20.00 |
| Mawrth | 19eg Maw | Diwrnod Marchnad yn y Fenni | £24.00 |
| Mawrth | 26ain Maw | Trago Mills, Merthyr Tydfil | £22.00 |
| Mawrth | 9fed Ebrill | Gerddi Clun Abertawe a'r Mwmbwls | £18.00 |
| Mercher | 24ain Ebrill | Taith Diwrnod i Aberystwyth | £24.00 |
| Iau | 9fed Mai | Diwrnod Marchnad yn y Gelli Ganddryll | £25.00 |
| Mawrth | 14eg Mai | Taith yn cynnwys tê prynhawn yng Ngwesty'r Cliff | £45.00 |
| Mawrth | 28ain Mai | Bathdy Brenhinol, Amgueddfa Glo a Distyllfa Jin Hensol | £65.00 |
| Mawrth | 4ydd Meh | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Mawrth | 18fedMeh | Caerdydd- Taylor Swift (dim yn cynnwys tocynnau) | £25.00 |
| Mawrth | 25ainMeh | McArthur Glen, Penybont ar Ogwr a Porthcawl | £20.00 |
| Sadwrn | 6edGorff | Sioe Awyr Abertawe | £18.00 |
| Mawrth | 23ainMeh | Taith i Dan yr Ogof (Gwyliau Ysgol) | £35.00 |
| Mawrth | 24ainGorff | Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd | £22.00 |
| Mawrth | 30ainGorff | Teithio Sir Benfro a tê prynhawn yn Cenarth | £40.00 |
| Sadwrn | 3yddAwst | Taith Gogledd Cymru Clive (Bore cynnar a mannau casglu cyfyngedig) | £50.00 |
| Mawrth | 6edAwst | Tŷ ddewi a Fferm Chwilod Dr Beynon | i'w gadarnhau |
| Mawrth | 19egAwst | Castell Margam a'r Gerddi | £18.00 |
| Gwener | 23ainAwst | Diwrnod y Merched yn ffoslas | i'w gadarnhau |
| Mawrth | 27ainAwst | Aberystwyth ac egwyl am fwyd ar ffordd adref (ddim yn y pris) | £24.00 |
| Mawrth | 10fedMedi | Ynys y Barri am y diwrnod | £22.00 |
| Mawrth | 24ainMedi | Taith Ddirgel a Phryd o Fwyd yn gynnwysiedig | £50.00 |
| Mawrth | 1afHyd | Te Hufen a thaith Cwch ar yr Afon Gwy | £50.00 |
| Mawrth | 8fedHyd | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Mawrth | 22ainHyd | Siopa Nadolig yn Cabot Circus, Bryste | £25.00 |
| Mawrth | 29ainHyd | Diwrnod Marchnad yn y Fenni | £24.00 |
| Mercher | 6edTach | McArthur glen, Penybont ar Ogwr | £20.00 |
| Mawrth | 19egTach | Siop Vincent Davies, Hwlffordd | £14.00 |
| Sadwrn | 16egTach | Gŵyl y Gaeaf Abertawe (Winter Wonderland) | £16.00 |
| Llun | 25ainTach | Sioe Aeaf Amaethyddol Cymru, Llanelwedd | £22.00 |
| Iau | 28ainTach | Trago Mills, Merthyr Tydfil | £22.00 |
| Mawrth | 3yddRhag | Siopa Nadolig yn Abertawe | £16.00 |
| Mawrth | 10fedRhag | siopa nadolig yng Nhaerdydd | £20.00 |
| Iau | 12fedRhag | Marchnad Nadolig yn y Gelli Ganddryll | £25.00 |

Ffôn:01994 240908 / info@tafvalleycoache.co.uk



**WYN DAVIES a'i FRODYR**

**ADEILADWYR**

Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn. 01437 563300





**IFAN DAVIES**

**Saer Coed**





Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469





*W.J. KENNETH DAVIES*
*ei Feibion a'i Ferch*

**SEIRI COED**
a
**THREFNWYR ANGLADDAU**

*Blaenwern, Clunderwen*

**Ffôn: 01437 563319**






# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*

## Teithiau 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sadwrn 30ain Rhagfyr | DATHLU'r FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON | £490 | 4 Diwrnod |

## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwener 12fed Ionawr | Penwythnos yn yr hên Ffefryn - WESTON SUPER MARE | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwener 19eg Ionawr | Aduniad Cwsmeriaid a Ffrindie Bysiau Cwm Tâf yn TORQUAY | £260 | 4 Diwrnod |
| Gwener 2ail Chwefror | Penwythnos yn Gwesty'r Queens, Paignton | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwener 12fed Chwefror | Bournemouth yn ymweld a'r New Forest a Beaulieu | £395 | 5 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru -Gwesty'r Talbot , Stillorgan | £465 | 4 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Gêm Rygbi Iwerddon v Cymru - Gwesty'r Bonnington, Dulun | £465 | 4 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru - ENNISCORTHY | £385 | 4 Diwrnod |
| Iau 29ain Chwefror | Mordaith Ddychmygol yng Ngwesty'r Tynedale, Llandudno | £510 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Mawrth | Ymunwch â Clive a'l Ffrindie i ddathlu Gwyl Dewi yn Caernarfon | £250 | 3 Diwrnod |
| Llun 7fed Mawrth | GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - ST AGNES | £395 | 5 Diwrnod |
| Llun 11fed Mawrth | BOGNOR REGIS a'r "SOUTH DOWNS" | £395 | 5 Diwrnod |
| Gwener 15fed Mawrth | PENWYTHNOS YN BABBACOMBE | £305 | 4 Diwrnod |
| Gwener 22ain Mawrth | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £305 | 4 Diwrnod |
| Llun 1af Ebrill | YNYS WYTH - Isle of Wight. Gwesty Trouville SANDOWN | £445 | 5 Diwrnod |
| Sul 7fed Ebrill | SCARBOROUGH a Rhostir Gogledd Swydd Efrog | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 12fed Ebrill | Gwesty'r Belgrave Sands TORQUAY | £325 | 4 Diwrnod |
| Mawrth 16eg Ebrill | TAITH DDIRGEL MIS EBRILL i ??????????? | £365 | 4 Diwrnod |
| Gwener 19eg Ebrill | PENWYTHNOS YN EFROG | £335 | 4 Diwrnod |
| Llun 22ain Ebrill | Yr EIDAL -Y Dolomites Dramatig a'r Llynnoedd Disglair | £995 | 8 Diwrnod |
| Gwener 26ain Ebrill | BLAS O GYMRU YN Y TYNEDALE, LLANDUDNO | £415 | 4 Diwrnod |
| Llun 29ain Ebrill | DEWCH i DDARGANFOD DINAS LERPWL ar ei gorau | £535 | 5 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Mai | DANTEITHION PAIGNTON ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT | £340 | 4 Diwrnod |
| Llun 6ed Mai | NORFOLK - TRENNAU, LLONGAU a SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 11fed Mai | TEITHIO O AMGYLCH YNYS JERSEY | £795 | 7 Diwrnod |
| Iau 16eg Mai | ?????? PENWYTHNOS O DDIRGELWCH I RHYWLE ????? | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun 20fed Mai | DEWCH i DDARGANFOD RHYFEDDODAU WEYMOUTH | £430 | 5 Diwrnod |
| Gwener 24ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £395 | 3 Diwrnod |
| Gwener 31ain Mai | (Newydd) NORWY - TELEMARK a'r FJORDS (Newydd) | £1,995 | 12 Diwrnod |
| Sul 2ail Mehefin | SIR GAER HYFRYD a PHENRHYN y WIRRAL | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 12fed Mehefin | CAINT HANESYDDOL - HISTORIC KENT | £495 | 5 Diwrnod |
| Mercher 12fed Mehefin | LLANDUDNO a TREN BACH YR WYDDFA. | £555 | 5 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

# Eisteddfod yr Hoelion Wyth

Cynhaliwyd Eisteddfod blynyddol yr Hoelion Wyth yn Nhafarn Ffostrasol ar nos Wener, Hydref 27ain. Arweinyddion y noson oedd Eurfyl Lewis, Llanglydwen a John Jones, Ffair Rhos a'r ddau feirniad oedd y Prifardd Ceri Wyn Jones, Aberteifi a Shon "Midway" Rees, Crymych. Cafwyd cystadlu brwd drwy gydol y nos a cyflwynwyd Tlws Beca i'r gangen a fwyaf o bwyntiau yn y cystadlaethau llwyfan i gangen Beca a cyflwynwyd Tlws yr Eisteddfod i'r gangen wnaeth ennill y marciau uchaf i gangen Cors Caron. Enillwyd y gadair am ysgrifennu telyneg ar y testun "Dathlu" gan John Jones, Cors Caron a'r goron am ysgrifennu cerdd ddigri ar y testun "Y Trip" gan Geraint Morgan, Cors Caron – llongyfarchiadau mawr i'r ddau ar eu llwyddiant. Cyflwynwyd Tlws cangen Aberporth am y perfformiad gorau ar y llwyfan (dweud joc) gan Wyn Evans, Sion Cwilt. Enillwyd tlws coffa Huw Griffiths ar y cyd rhwng cangen Beca a Sion Cwilt.

Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni'n gilydd a diolchodd Eurfyl i Ceri a Shon am feirniadu, i John am ei gynorthwyo i arwain y noson, i dafarn Ffostrasol am ganiatau i ni gynnal yr Eisteddfod yno ac i aelodau'r canghennau am eu cefnogaeth. Roedd hi'n wych cael dod at ein gilydd unwaith yn rhagor a theuliwyd amser hyfryd yn cymdeithasu'n braf ar derfyn yr Eisteddfod.

Dyma restr y canlyniadau:-

**Dweud Joc**
1. Wyn Evans, Sion Cwilt
2. Geraint Morgan, Cors Caron
3. Vernon Beynon, Beca

**Stori a Sain**
1. Huw a Daniel, Cors Caron
2. Tudur ac Eurfyl, Beca
3. Digby ac Wmffre, Sion Cwilt

**Sgetsh**
1. Beca
2. Cors Caron
3. Sion Cwilt

**Can Ddigri**
1. Beca
2. Sion Cwilt
3. Cors Caron

**Cor**
1. Beca a Sion Cwilt
2. Cors Caron

**Brawddeg ar y gair "FFOSTRASOL"**
1. Eurfyl Lewis, Beca
2. Geraint Morgan, Cors Caron
3. Geraint Morgan, Cors Caron

**Brysneges ar y lythyren "D"**
1. Alun Davies, Cors Caron
2. John Jones, Cors Caron
3. Eurfyl Lewis, Beca / Gwyndaf Evans, Beca

**Limrig yn cynnwys y llinell:**
**"Aeth Geraint i Ffrainc am y rygbi".**
1. Eurfyl Lewis, Beca
2. Eurfyl Lewis, Beca
3. Eurfyl Lewis, Beca

**Creu arwyddair i unrhyw sefydliad**
1. Eurfyl Lewis, Beca
2. John Jones, Cors Caron
3. Geraint Morgan, Cors Caron

**Telyneg ar y testun "Dathlu"**
1. John Jones, Cors Caron
2. Ffugenw - Hiraeth
3. Eurfyl Lewis, Beca

**Cerdd ddigri ar y testun "Hoelen".**
1. Geraint Morgan, Cors Caron
2. John Jones, Cors Caron
3. Eurfyl Lewis, Beca



Eifion Griffiths yn cyflwyno tlws coffa ei frawd, Huw, i Calfin Griffiths, Sion Cwilt ac Eifion Evans, Beca



Y Prifardd Ceri Wyn Jones yn cyflwyno beirniadaeth ar y delyneg a'r gerdd ddigri


**Pwyllgor Gŵyl Rhinwedd a Moes**
Cynhelir
**Brecwast Gŵyl Ddewi**
yng Nghaffi Beca, Efailwen
ar fore Sul, Chwefror 25ain 2024
am 10 o'r gloch
**Siaradwr gwadd – Y Prifardd Tudur Dylan**
Enwau a thâl o **£10** i ysgrifenyddion y capeli
cyn gynted â phosib ond erbyn
dydd Sul, Chwefror 4ydd ar yr hwyraf
os gwelwch yn dda.

# CYFARFODYDD HANNER BLYNYDDOL CYMANFA BEDYDDWYR CAERFYRDDIN A CHEREDIGION

Cynhaliwyd y Cyfarfodydd Blynyddol eleni ar ddydd Mercher, 8fed Tachwedd yng Nghapel Penyparc ger Aberteifi. Y Llywydd am eleni yw Eurfyl Lewis, Calfaria, Login a gan mai brodor o'r eglwys honno oedd tad y Llywydd, sef y diweddar Iwan Lewis, a fu'n bregethwr cydnabyddedig o fewn y Gymanfa am flynyddoedd, priodol oedd cynnal y cyrddau ym Mhenyparc.

Cychwynnwyd y gweithgareddau drwy gynnal y Gynhadledd yn y prynhawn. Yn dilyn canu emyn fe gymerwyd at y rhannau arweiniol gan Y Parch. John Treharne, Is-lywydd y Gymanfa, croesawyd pawb ar ran Eglwys Penyparc gan Mrs Gwyneth Jones. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau am absenoldeb anorfod nifer o ffyddloniaid y Gymanfa ond da oedd cael cynrychiolaeth o nifer o'r eglwysi yn bresennol.

Trafodwyd nifer o faterion perthnasol i'r Gymanfa gan hefyd gofio am y sefyllfa yn Gaza a chytunwyd yn unfrydol i anfon datganiad Undeb Bedyddwyr Cymru yn enw'r Gymanfa yn gofyn am gadoediad a rhyddhau'r gwystlon.

Cyflwynodd Y Parch Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, ddiweddariad o'r Undeb cyn i'r Parch Sian Elin Thomas gyflwyno prosiect newydd sef Prosiect Esgyn yn ymwneud â gwaith ieuenctid o fewn yr enwad. Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol tuag at y gwaith ymhlith y bobl ifanc. Bydd y Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghapel Calfaria, Login ar ddydd Mawrth, 14eg Mai, 2024 a gwahoddwyd y cyrddau ar ran aelodau Calfaria gan Mrs Faith Wright.

Y siaradwraig wadd eleni oedd Y Parch Beti Wyn James, Caerfyrddin a ddaeth i roi cyflwyniad ar 'Ddirnad a Datblygu Doniau o fewn ein Heglwysi'. Soniodd bod gan bawb eu rhan yng ngwaith yr eglwys a'r ffordd gellir mynd ati i gael pobl i ysgwyddo'r baich yn y dyddiau hyn. Roedd yn gyflwyniad positif ac i ddilyn cafwyd trafodaeth â'r Parch Beti Wyn James yn ymhelaethu ar ei phrofiad o weithredu'r elfennau soniwyd amdanynt ganddi yn ei heglwysi.

Gan ei bod yn Ddydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd ddeuddydd cyn y cyrddau hanner blynyddol cafwyd ychwanegiad i'r rhaglen pan ofynnwyd i bump o'r chwiorydd oedd yn bresennol, i gyflwyno rhannau penodol o'r oedfa a baratowyd ar gyfer y Dydd Gweddi ac roedd hyn yn glo effeithiol i weithgareddau'r prynhawn. Yn dilyn canu'r emyn olaf cyhoeddwyd y Fendith gan Y Parch Ddr D Densil Morgan.

Cafwyd croeso ardderchog gan Chwiorydd Penyparc wrth y byrddau a mwynhawyd amser hyfryd yn gwledda a chymdeithasu gan gwrdd â chyfeillion hen a newydd.

I gloi gweithgareddau'r dydd cynhaliwyd Oedfa Bregeth o dan lywyddiaeth Eurfyl Lewis. Yn ôl y drefn, cyn-lywydd y Gymanfa oedd i gymryd at y defosiwn a darllenodd Y Parch Mary Davies, Llandeilo ran o bennod 13 o Efengyl Mathew cyn ein harwain mewn gweddi.

Y Parch Sian Elin Thomas, Gweinidog Gofalaeth Bro Cemaes Dyffryn Teifi gwahoddwyd i bregethu a seliodd ei neges ar y geiriau a ddarllenwyd sy'n sôn am y perl gwerthfawr a chafwyd cyflwyniad ar y sgrin i gyd-fynd â'r neges.

Derbyniwyd casgliad teilwng yn ystod yr oedfa a bydd y swm o £300 yn cael ei throsglwyddo i Ffrindiau Tenovus Penparc a diolch i bawb am eu haelioni.

Yr organyddion yn ystod y dydd oedd Mrs Maureen Davies a Mr Hywel Rees a diolch i bawb sicrhaodd lwyddiant y cyfarfodydd. Edrychwn ymlaen at ymweld ag ardal Login yn ystod gwanwyn y flwyddyn nesaf.



Swyddogion a'r rhai fu'n cymryd rhan yn y prynhawn



Swyddogion a'r rhai fu'n cymryd rhan yn oedfa'r hwyr



# Cyfarchion yr Ŵyl



Pob dymuniad da i'r teulu, ffrindiau a chymdogion. Mwynhewch y dathlu a phob dymuniad da yn 2024. **Tony a Meinir Eynon a'r teulu.**

Dymuna **Brian John, Rose Cottage, Cwmfelin Mynach** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w gwsmeriaid, teulu a ffrindiau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl berthnasau, cymdogion a ffrindiau. Pob hwyl dros yr Ŵyl. **Rose ac Elgar Saer, 10 Stryd y Parc, Hendygwyn.**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i deulu a ffrindiau oll. **Dewi Griffiths, Cartref Clyd, Lôn Hafren, San Clêr.**

Dymuna **Mefin Lewis, Huan Aur, Login** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau i gyd.

Dymuna **Meurig a Pat Davies, Llygad yr Haul, Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

**Dymuna Grismond a Mary Lewis, Llwynllwyd** Nadolig Llawen a phob dymuniad da am 2024 i'r teulu, ffrindiau a chymdogion.

Dymuna **Marlene Lewis, Hafan Glyd, Pwlltrap** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i deulu, ffrindiau a chymdogion.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau oddi wrth **Gareth ac Angela Murray, 2 Piccadilly, Llanboidy.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n teulu, ffrindiau a chymdogion. **Teulu Merlais**

Dymuna **Wyn a Meirwen Evans** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, ffrindiau a chymdogion - **Rodney ac Eiry Williams, Yr Hen Ffatri Bop, Llanboidy.**

Dymuna **Norah Heseltine** ddanfon cyfarchion yr Ŵyl i'w pherthnasau a ffrindau.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, ffrindiau a chymdogion - **Merle Evans, Delfryn, Llanboidy.**

Nadolig Llawen a iach a dymuniadau gorau am y Flwyddyn Newydd i bawb. **Brenda Bowen a'r teulu, Blaen-dôl-Frwynog, Llandysilio.**

Dymunaf i **Susan, Maes y Werin, Llanboidy** gyfarchion y tymor i'm teulu, ffrindiau a chydnabod. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm cymdogion, a ffrindiau oll.
**Elizabeth White,**
**Gerddi Trefychan, Hendygwyn.**

Dymuna **Teulu, 25 Gorsfach, Pwlltrap** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau.

Dymuna **Ernest a Janet Jones, Heol Bronwydd, Caerfyrddin** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau.




Dymuna **Roy Reynolds, Tymore, Llangynin** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Cyfarchion y tymor a dymuniadau gorau i'm ffrindiau, a chymdogion i gyd wrth **Sally Davies, Lluest, Pwll Trap.**

Dymuna **Eurfyl, Jill, a'r teulu Lluest, Llanglydwen** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion.

Cyfarchion y tymor i'r teulu, cymdogion a ffrindiau - oddi wrth **Llinos a Geraint, Carreglwyd, Llangynin.**

Cyfarchion yr Ŵyl i'n cymdogion, ffrindau a'r teulu oll. Oddi wrth **Eileen John a Graham, Marlowe, Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn.**

Dymuna **Margaret a Dion, Cilowen, Login** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau a pherthnasau.

Dymuna **Elfed ac Eifiona Lewis, Llangynin** anfon cyfarchion y tymor i'w perthnasau a ffrindiau oll gan ddymuno y gorau i bawb yn y flwyddyn 2024.

**Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen**
Cyfarchion yr Ŵyl i'r gymdogaeth. Edrychwn ymlaen at eich cefnogaeth eto yn 2024.

Dymuna **Nansi Evans, Penybont, Cwmfelin Mynach** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion i gyd.

Dymuna **Carwyn, Sarah, Josh, Jac ac Ellie** Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chwsmeriaid .

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'm holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion - oddi wrth **Roy Llewellyn, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach.**



Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion - oddi wrth **Don a Rita James, Hafan Hedd, Pwlltrap**


Dymuna **Islwyn a theulu Nantycyw,** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dymuna **Simon, Faith, Carys, Dafydd, Emily a Noah, Carydd, Clunderwen** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion.

Nadolig Llawen a dedwydd i'n cymdogion, teuluoedd a ffrindiau oddi wrth **Anthony, Ceirios a'r teulu, Efailwen.**

Dymuna **Dorothy Jenkins, Gwynfa, Hendygwyn** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Mwynhewch yr Ŵyl. Gobeithio fydd pawb yn cadw'n iach.

Dymuna **Tegwen James, Penybryn, Blaenwaun** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion i gyd.



Dymuna **Tudur, Rhodri, Gwyndaf, Nia a Ffion,** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Cardi Bach.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau -
**Richard a Non Murray a'r teulu, Maes-y-Ffynnon, Login.**

Cyfarchion y tymor i'm ffrindiau, cymdogion a theulu.
**Mel Jenkins, Ger y nant, Hendygwyn.**

Hoffai **Wyn Owens. Llwynhelyg, Mynachlogddu** ddiolch i'w deulu, ffrindiau a holl ddarllenwyr Y Cardi Bach. Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Mae'r **Cyng. Jean, Ambrose a Gwawr** yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i drigolion Ward Trelech, cymdogion, ffrinidau a pherthnasau.

Diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Os oes angen cymorth plis cysylltwch ar 01994 484334 neu JeanLewis@carmarthenshire.gov.uk



Cyfarchion yr Ŵyl a phob bendith a iechyd i bawb yn y flwyddyn newydd.

Hoffwn ddiolch i bawb am eich cymorth trwy'r flwyddyn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda .
Cofion
**Cyng. Dorian Phillips MBE**

Cyfarchion Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau a chymdogion oll - **John Arfon Cilhaul, Hendygwyn ar Daf.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion. Diolch i bawb am eu caredigrwydd. **Doreen Adams, Llain Alaw, HDG.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau -
**Geraint a Beti James, Coedllys.**

Dymuna **Mary Llewellyn, Gwynlais, Maenclochog** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau.

# PENBLWYDD HAPUS





Penblwydd hapus iawn i'r ddwy chwaer yma o Feisgyn. Roedd Efa-Grug yn 11 oed ar y 27ain o Dachwedd a'i chwaer Mari Elli yn 9 oed ar yr 2il o Ragfyr. Cariad mawr wrth, Mami, Dadi, Betsi Haf, Mamgu a Geraint, Carreglwyd, Llangynin a Hen-Ddadcu, Tymore, Llangynin. xxx





Penblwydd hapus yn flwydd oed ar Dachwedd 17eg i'r efeilliaid yma sef Alfie a Loti Evans, Cwm Gwaun. Llawer o gariad wrth deulu Jenkins, Rhosfach, Efailwen.






Penblwydd Hapus i Elspeth Scott Robinson a oedd yn 8 oed ar Hydref 23ain ac i'w chefnder, Cai Alexander Booth yn 8 oed hefyd, ar Dachwedd 27ain. Yn y llun hefyd mae Taliesin Angus, brawd mawr Elspeth a oedd yn 11 oed ar Fehefin 3ydd. Maent yn blant i Siriol a Nia, gynt o Garnwen, Llangynin. Cyfarchion cynnes iawn a chariad mawr i'r tri wrth Grannie, Grampa a Li.





Penblwydd hapus i Llew Owen-Jenner, sydd yn dathlu ei benblwydd yn chwe mlwydd oed ar Dachwedd 18fed. Mae'r cyfarchion yn dod oddi wrth Dad a Ffion yng Nghaernarfon, a Mamgu a Dadcu yn Efailwen.



Penblwydd Hapus iawn i Rhys Iorwerth Biggs (ŵyr Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon) a fydd yn 11 oed ar y 15fed o Ionawr. Siŵr fydd Rhys yn mwynhau dathlu gyda'r teulu a'u ffrindiau yn Warrington. Cariad oddi wrth y teulu oll.



# Cacen Nadolig

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae Mam-gu Iet-wen wedi ennill y wobr gyntaf am ei chacen Nadolig wych!
**Fedrwch chi ddyfalu faint o'r addurniadau gwahanol sydd ar y gacen hardd?**




| dyn eira | robin goch | coeden Nadolig | Sion Corn | pelen eira | celyn | pluen eira | seren |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/01/24**

**Arielle Thomas, Aurora, Llanddowror yw enillydd Cystadleuaeth Blodau Haul**
Ateb: 17 o flodau haul oedd yn tyfu yng ngardd Mam-gu Iet-wen yn ystod yr haf

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓡ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2023

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

Jones Login
Teithiau o Safon
*Quality Coach Travel*

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**




| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Tachwedd** | | |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Sister Act, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Rhagfyr** | | |
| Gwe 8 | **Nadolig Chatsworth a Chaer** | 3 |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd - Aladdin, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Chwefror 2024** | | |
| Sad 3 | *Sioe Gerdd - Jesus Christ Superstar, CMC* | 1 |
| Sad 10 | **Torquay** | 5* |
| **Ebrill 2024** | | |
| Sad 13 | *Côr Meibion Dyfnant - Taith Cymru, Ty Ddewi* | 1 |
| Llun 15 | **Cernyw ac Ynysoedd Scilly** | 5* |
| Sad 20 | *Sioe Gerdd - An Officer & a Gaentleman, CMC* | 1 |
| **Mai 2024** | | |
| Iau 2 | **Ynysoedd Shetland, Royal Deeside a Pitlochry** | 9* |
| Sad 4 | *Sioe Gerdd Pretty Woman, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Sad 11 | **Amgueddfa Sain Ffagan** | 1 |
| Sul 12 | *Strictly Come Dancing - Y Dawnswyr Proffesiynol* | 1 |
| Llun 13 | **Blodau Sir Norfolk** | 5* |
| Sad 25 | *Nye, CMC (Drama hanes Aneurin Bevan)* | 1 |
| **Mehefin 2024** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Mer 19 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Sad 6 | Bannau Brycheiniog, Canolfan Arddio Three Cocks A Thaith ar Cwch Dragonfly Aberhonddu | 1 |
| Iau 25 | **Castell Highclere (Downton Abbey) a Cheltenham** | 2 |
| Sad 27 | *Sioe Gerdd - Wizard of Oz, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Sad 27 | *Côr Meibion Dyfnant - Taith Cymru, Neuadd Brangwyn* | 1 |
| Maw 30 | **Llandudno** | 5* |
| **Awst 2024** | | |
| Llun 5, Mer 7 a Gwe 9 | Eisteddfod Genedlaethol | 1 |
| Mer 30 | **Gerddi Highgrove a'r Cotswolds** | 2 |
| **Medi 2024** | | |
| Llun 2 | **'All Features Great & Smal** | 5* |
| Sad 7 | *Grease, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 9 | **'Picture Perfect Suffolk'** | 5* |
| Sad 14 | Canolfan Treftadaeth Gwyr | 1 |
| Llun 16 | **'Sussex Bygone Years' a'r 'Repair Shop'** | 5* |
| Llun 23 | **Deintyddion Northumbria** | 5* |
| **Hydref 2024** | | |
| Sad 5 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| Llun 7 | **Gwesty Warner - Sinah Warren** | 5* |
| Llun 21 | **Southport, Ardal y Llynnoed a Lerpwl** | 5* |

**Llyfryn 2024 ar gael yn y Gymraeg ar-lein ac mewn print!!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**


# Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**

Hydref 14eg: Tregwyr 50 - Hendy Gwyn 0. Colli'n drwm yn erbyn tîm Tregwyr, dyna beth oedd diwrnod gwael yn y swyddfa!
21ain: Hendy Gwyn 19 - Felinfoel 20. Colli ym munud ola'r gêm wrth i faswr Felinfoel gicio cic adlam i gipio'r fuddugoliaeth o un pwynt. Un cais i Trystan Rees a 4 cic gosb a trosiad gan Geraint Jones.
Tachwedd 4ydd: Hendy 28 - Hendy Gwyn 17. Colli am y drydydd gêm o'r bron ond perfformiad addawol yn erbyn yr Hendy. Dau gais i Zac France Millar ac un cais i Oli Buiega. Llwyddodd Geraint Jones gydag un trosiad.
11eg: Waunarlwydd 52 - Hendy Gwyn 17. Colli'n drwm eto yn erbyn tim cryf Wanarlwydd. Cais yr un i Dom Davies, Lewis Tinga a Trystan Bowen ac un trosiad gan Geraint Jones.

**Menywod**

Hydref 13eg: Hendy Gwyn 24 - Blaendulais 29. Colli mewn gêm gyffrous ac agos. Dau gais i Marged Williams a cais yr un i Cath Davies a Sophie Campbell Cross. Llwyddodd Cath Davies gyda dau drosiad.
20fed: Hendy Gwyn 19 - Porth Tywyn 44. Colli'n erbyn tîm cryf Porth Tywyn. Cais yr un i Marged Williams, Sally Windsor ac Amy Morgan a dau drosiad gan Cath Davies. Gohiriwyd gemau Hydref 27ain, Tachwedd 5ed a'r 12fed oherwydd y tywydd gwael.

**Gemau Hwb**

Gohiriwyd pob gêm heblaw am un, oherwydd y tywydd gwael diweddar. Bu'r tîm dan 16 yn chwarae yn erbyn y Valley Vixens, gan ennill 63-12, da iawn wir!

*Suzanne Davies*

*parhad o dudalen 44.* Dyma sylweddoliad na fydd un gêm hawdd gennym yn y gynghrair hwn ac roedd hyn yn brofiad dysgu gwerthfawr i'n carfan ifanc.

Hydref 21ain: San Cler 16 Nantgaredig 9. Daeth torf dda ynghyd i'n hail ddarbi lleol ym mis Hydref. Roedd y bois yn awyddus i ennill ar ôl colli ar y Sadwrn blaenorol a gwnaeth y bechgyn wella eu perfformiad gyda Dan Griffiths yn cicio 3 chosb a throsi cais gan yr asgellwr Liam Rogers. Bu'n ornest agos gyda dau amddiffyn cryf a gwnaethom lwyddo i dawelu cefnwyr peryglus y Nant a chwarae ein rygbi yn ardaloedd cywir y cae.

Hydref 28ain: San Cler 23 - Dinbych y Pysgod 24 (Gêm Gwpan). Ar ôl gwthio Dinbych y Pysgod yn agos yng ngêm gynghrair gyntaf y tymor, roedd yn gyfle i symud ymlaen yn y cwpan. Gêm agored gyda chais cosb yn dilyn gwaith ardderchog gan y blaenwyr a chais rhyng-gipad gan y canolwr Shane Morgan. Llwyddodd y cefnwr Dafydd Waters i gicio 3 gôl gosb. Roedd San Cler ar y blaen 23 – 21 ar ôl 80 munud, ond chwaraeodd y dyfarnwr 10 munud ychwanegol a galluogi Dinbych y Pysgod i gael cic cosb yn yr eiliadau olaf i sicrhau'r fuddugoliaeth o chwarae olaf y gêm. Pob lwc i Ddinbych y Pysgod yn y rownd nesaf.

Tachwedd 4ydd: Aberdaugleddau 15 - San Cler 28. Roedd her anodd yn ein gwynebu yn erbyn blaenwyr mawr. Lle anodd i ymweld ag ef ac er bod Aberdaugleddau wedi cael y gorau o'r cyfnewidfeydd cynnar, buom yn gweithio ein ffordd yn ôl i'r gêm a dechrau symud eu blaenwyr o gwmpas y cae, wrth i'r cefnwyr ledaenu'r bêl ar bob cyfle a'r wythwr Will Icke yn rheoli'r gêm o fôn y sgrym. Llwyddodd Rhodri Jones gyda 3 cic gosb yn yr hanner cyntaf a sgoriwyd cais gan Sion Evans, ar ôl rhediad ardderchog gan Dafydd Waters, i sicrhau ein bod ni'n arwain 3 - 14 ar yr egwyl.
Dechreuom ni'r ail hanner fel gwnaethom orffen y cyntaf, gyda'r blaenwyr yn wych yn y chwarae rhydd, gan ryddhau Tom Mason ddwy waith er mwyn iddo sgorio dan y pyst - a droswyd gan Rhodri Jones. Fe wnaeth hyn sbarduno Aberdaugleddau i ymateb yn syth, ac ar ôl i ni arwain 3 – 28, fe wnaethon nhw sgorio dau gais yn hwyr yn y gêm - ac am yr ail wythnos yn olynol, roedd y dyfarnwr yn chwarae dros 10 munud o amser ychwanegol. Buddugoliaeth haeddiannol i'r bechgyn.

Tachwedd 11eg: San Cler 65 - Yr Aman 0. Dechreuon ni'r diwrnod yn yr ail safle, gan chwarae yn erbyn Yr Aman oedd ar waelod y gynghrair. Roeddent fodd bynnag wedi chwarae'n dda yn ystod yr wythnosau diwethaf, gan golli o drwch blewyn yn y gynghrair yn erbyn y rhedwyr blaen, Casllwchwr a Phontyberem. Enillon nhw gartref yn y cwpan yn erbyn Ffynnon Taf ac roeddem ni'n disgwyl her anodd yn ei herbyn. Er gwaethaf cae trwm ar ôl yr holl law, dangosodd y Seintiau ei bwriad ac roeddent yn benderfynol o roi perfformiad da o flaen torf fawr oedd yn bresennol. Fe wnaethom sgorio yn rheolaidd drwy'r blaenwyr a'r cefnwyr, gan arwain 34 - 0 ar hanner amser, gan fynd ymlaen i ennill 65 – 0 yn y diwedd. Seren y gêm am yr ail wythnos yn olynol oedd yr wythwr Will Icke. Sgoriodd Will a Dafydd Waters 3 cais yr un a sgoriodd Campbell Evans, Tom Mason, Sion Williams, Shane Morgan a Dafydd Evans 1 cais yr un. 2 drosiad gan Dafydd Waters a 3 gan Shane Morgan.

Yn dilyn canlyniadau da diweddar, bydd ein gemau nesaf i ffwrdd yn erbyn Pontyberem ar Dachwedd 18fed a Casllwchwr ar Dachwedd 25ain. Rydym yn hapus gyda canlyniadau'r gemau diwethaf ac rydym yn 2il yn y gynghraiar ar hyn o bryd, ar ôl ennill 6 gem allan o 8 a sicrhau 27 pwynt. Da iawn i'r tim hyfforddi a'r garfan a diolch o galon i'r cefnogwyr a'r noddwyr, mae'n golygu llawer i'r clwb.

Mae ein hieuenctid yn parhau i ddatblygu a gwnaethant sicrhau buddugoliaeth gartref yn erbyn Cydweli 51-10 ar y 14eg Hydref. Fe wnaethom ni chwarae yn erbyn tîm cryf Porth Tywyn ar yr 21ain o Hydref, gan chwarae'n dda, er gwaethaf colli 10 - 27. Gêm gwpan gartref yn erbyn Y Mwmbwls oedd gennym ar Tachwedd 11eg yng nghystadleuaeth y Bowl Genedlaethol. Enillodd y bechgyn ifanc 28 – 22, gan sicrhau ei lle yn y rownd nesaf. Y gêm nesaf i'r ieuenctid fydd adref yn erbyn Cwins Caerfyrddin yng Nghwpan Sir Gaerfyrddin (dyddiad i'w gadarnhau), gan chwarae'r Cwins eto oddi cartref yn y gynghrair ar y 25ain o Dachwedd.

*Gwyndaf Williams*


Yn erbyn Nantgaredig

*Lluniau: Chris Rees*


yn erbyn Aberdaugleddau

# CHWARAEON

## Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2023-24**
Mae tymor 2023-24 yn parhau i Glwb Pêl-droed Llanboidy.

**Tîm 1af**
Dros y mis diwethaf, mae'r tywydd gwael wedi chwarae rôl yn y ffaith mai ond tair gêm mae'r tîm cyntaf wedi chwarae, ond cafwyd buddugoliaethau yn y tair gêm. Yn ogystal ag hyn, llongyfarchiadau hefyd i Gethin Scourfield am gynrychioli tîm y Sir ar gyfer gêm 100 mlynedd y gynghrair yn erbyn tîm o adran y Cambrian Tyres ynghanol mis Hydref.


Bruce a Gethin Scourfield

Isod mae canlyniadau'r gemau gan gynnwys sgorwyr goliau'r Clwb:

14.10.23 - 2il dîm Tregaron 0 - Llanboidy 2 (Ifan Jones + Gethin Scourfield).
23.09.23 - Cei Newydd 0 - Llanboidy 3 (Phil Howells x 2 + Adam Moore)
11.11.23 - Llanboidy 4 - Cei Newydd 2 (Dafydd Jones, Gethin Scourfield + Nick Jones x 2)

**2il Dîm**
Dwy gêm mae'r 2il dîm wedi chwarae dros y mis diwethaf, a cholli'r ddwy gêm hefyd yn anffodus. Isod mae'r canlyniadau a'r sgorwyr:

21.10.23 - Llanboidy 0 - Llambed 5
11.11.23 - Llanon 3 - Llanboidy 1 (Huw Howells)

Rydym o hyd yn edrych am chwaraewyr newydd i'r Clwb - bydd ymarferion yn cael eu cynnal tan y Nadolig yn Nghrymych ar yr Astro ger yr Ysgol rhwng 20.00-21.00yh.


Tîm dan 6


Tîm dan 8

**Adran Iau**
Dros yr haf rydym wedi dechrau ymarferion adran iau'r Clwb. Croeso cynnes i unrhyw un rhwng 5-16 oed i ymuno a'r timau derbyn, dan 6, dan 8, dan 10, dan 12, dan 14 a dan 16 sydd gyda ni. Yn ystod y mis diwethaf, chwaraeodd ein tîm dan 12 ei gêm gyntaf erioed, ac ar ddydd Sadwrn, 11eg Tachwedd braf oedd gweld ein timau dan 6 ac 8 hefyd yn chwarae eu gemau cyntaf erioed dros y Clwb.

**Noson Cwis**
Ar nos Sadwrn, 11eg Tachwedd, cynhaliwyd noson Cwis y Clwb yng Nghlwb Cymdeithasol Llanboidy. Braf oedd gweld 11 tîm yn cystadlu ar y noson. Diolch yn fawr iawn i Rob Morgan am noddi £50 ar gyfer yr enillwyr, i bawb fu'n trefnu'r noson, ac i Dafydd ac Anna Makepeace am wneud rholiau i werthu yn ystod y noson. Diolch yn fawr iawn hefyd i Alun Griffiths a Sophie Davies am eu gwaith yn paratoi'r Cwis.

Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol. *Rhodri Lewis*

## Clwb Rygbi San Clêr

Ar ôl dechreuad da i'r tymor yn Adran 2 y Gorllewin, roedd amserlen llawn o gemau yn ein disgwyl drwy gydol mis Hydref a dechrau Tachwedd.

Hydref 14eg - Athletic Caerfyrddin 21 - San Cler 13. Darbi lleol, torf dda gyda gobeithion uchel y gallem ddychwelyd o Gaerfyrddin gyda chanlyniad. Chwaraewyd y gêm yn frwd gyda'r ddau amddiffyn cadarn yn golygu taw prin oedd cyfleoedd i sgorio. Cais i San Clêr gan yr ail reng Rhys Strawbridge a droswyd gan Dan Griffiths. Dau gic gosb arall gan Dan. Nid oedd y naill dîm na'r llall yn dominyddu a gyda'r sgôr yn 14-13, roedd y canlyniad terfynol yn y fantol tan y funud olaf, pan wnaeth rhyng gipiad roi'r sgôr buddugol i dim yr Athletic wrth iddynt sgorio tros gais. Fe gawsom ein cyfleoedd a gwnaeth methu ciciau cosb, gostio'r fuddugoliaeth i ni.

*parhad ar dudalen 43*